



Canllaw i'r Cynllun
Graðdio Seren

**GWESTAI Â
GWASANAETH**

Cynnwys

1.0 Cyflwyniad cyffredinol

1.1 Cyflwyniad

- 1.1.1 Safonau Cyffredinol ar draws Prydain
- 1.1.2 Y Gofynion
- 1.1.3 Eithriadau
- 1.1.4 Sut mae'r system asesu yn gweithio?
Bwyd a Diod
Naws am Le

1.2 Categori

- 1.2.1 Crynodeb o Safonau Gwestai
- 1.2.2 Disgrifiad Cyffredinol

1.3 Pennu Gradd Sêr

2.0 Gofynion Manwl

2.1 Safonau Cyffredinol

- 2.1.1 Rhwymedigaethau Statudol
- 2.1.2 Diogelwch Personol a Diogelwch Eiddo
- 2.1.3 Cynnal a Chadw
- 2.1.4 Glendid
- 2.1.5 Lletygarwch
- 2.1.6 Gwasanaethau
- 2.1.7 Agor
- 2.1.8 Mynediad Gwesteion

2.2 Gwasanaethau

- 2.2.1 Archebu, Prisiau a Biliau
- 2.2.2 Derbynfa
- 2.2.3 Cymorth â Bagiau
- 2.2.4 Arall – Derbynfa/Concierge/
Gwasanaethau Cadw Tŷ

2.3 Holl Brydau Bwyd – Ansawdd Bwyd a Gwybodaeth

- 2.3.1 Darpariaeth Bwyta
- 2.3.2 Gwasanaeth Prydau Bwyd: Staff

2.4 Brecwast

- 2.4.1 Darpariaeth
- 2.4.2 Bwydlen
- 2.4.3 Amrywiaeth Prydau Bwyd

2.5 Darpariaeth Cinio

- 2.5.1 Amrywiaeth Prydau Bwyd, Bwydlen
- 2.5.2 Gweini Diod Gadarn/Trwyddedau/
Gwasanaethau Gwin (fel sy'n gymwys
o dan ddeddfau trwyddedu Cymru)
- 2.5.3 Lluniaeth Ysgafn, Byrbrydau, Cinio
a The Prynawn
- 2.5.4 Darpariaeth Gwasanaeth Ystafell

2.6 Ystafelloedd Gwely

- 2.6.1 Darpariaeth
- 2.6.2 Maint ac Ehangder
- 2.6.3 Swïts
- 2.6.4 Maint Gwelyau: Ansawdd/Mynediad
- 2.6.5 Gofynion Dillad Gwely
- 2.6.6 Rheoli Gwres a Thymheredd
- 2.6.7 Goleuo
- 2.6.8 Ffenestri a Gorchuddion Ffenestri
- 2.6.9 Lloriau
- 2.6.10 Dodrefn, Byrddau, Drychau a Storio Dillad
- 2.6.11 Seddi
- 2.6.12 Cyfleusterau Gwneud Diodydd
- 2.6.13 Gwybodaeth yn yr Ystafell
- 2.6.14 Adloniant yn yr Ystafell
- 2.6.15 Cysylltedd Cyffredinol a Ffonau
- 2.6.16 Amrywiol

2.7 Ystafelloedd Ymolchi ac Ystafelloedd Cawod En-Suite a Chyfleusterau Preifat

- 2.7.1 Maint a Darpariaeth Ehangder
- 2.7.2 Darpariaeth En-suite
- 2.7.3 Offer
- 2.7.4 Goleuo, Gwresogi ac Awyru
- 2.7.5 Tyweli a Phethau Ymolchi

2.8 Ardaloedd Cyhoeddus

- 2.8.1 Ardaloedd Derbyn/Cyntedd
- 2.8.2 Bariau, Lolfeydd ac Ardaloedd Eistedd
- 2.8.3 Ardaloedd Cyhoeddus Eraill yn cynnwys Coridorau a Grisïau
- 2.8.4 Liffïau
- 2.8.5 Cyfathrebu
- 2.8.6 Toiledau Ardaloedd Cyhoeddus

2.9 Ardaloedd Allanol (Fel sy'n Gymwys)

3.0 Atodiadau

4.0 Cod Ymddygiad

5.0 Amodau Cyfranogiad

6.0 Newid Perchnogaeth

7.0 Arwyddion

8.0 Beth i'w Wneud os Ydych yn Anghytuno â'r Radd Sêr a Roddwyd

1.0 Cyflwyniad Cyffredinol

1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Safonau Cyffredinol ar draws Prydain

Yn dilyn adolygiad ansawdd cynhwysfawr oedd yn cynnwys yr holl bartneriaid mewn perthynas â safonau cyffredinol, datblygwyd set newydd o feini prawf sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ansawdd yn hytrach na chyfleusterau er mwyn pennu gradd sêr eich eiddo.

Nawr bydd Croeso Cymru yn defnyddio'r gofynion safonau cyffredinol newydd yma er mwyn pennu Gradd sêr ar gyfer eich sefydliad. Bydd eich gradd yr un fath p'un ai a fyddwch yn dewis Croeso Cymru neu'r AA i gynnal eich asesiad. Wrth gwrs, gallwch ddewis gael eich asesu gan fwy nag un sefydliad, a bydd pob sefydliad yn dyfarnu'r un radd sêr a dynodwr i chi. Fodd bynnag, nid yw gwobrau marchnata ychwanegol mewn perthynas â bwyd, cyffordduswydd a gwasanaeth e.e. Gwobr Aur Croeso Cymru, yn rhan o'r cytundeb yma.

1.1.2 Y Gofynion

Rydym wedi selio gofynion y graddau sêr ar safonau presennol yr holl sefydliadau. Rydym hefyd wedi ymgynghori â'r diwydiant lletygarwch. Mae'r adborth yr ydym wedi ei dderbyn gan y diwydiant yn dangos cefnogaeth gref i safonau ansawdd cyffredinol ar gyfer llety â gwasanaeth drwy'r gwledydd ble'r ydym yn gweithredu'r cynlluniau. Ein nod mewn perthynas â'r safon ansawdd cyffredinol diwygiedig yma yw gweithio'n barhaus â'r diwydiant er mwyn ymdrechu gyda'n gilydd i godi safonau ansawdd yn unol â disgwyliau'r cwsmeriaid sy'n esblygu'n barhaus.

1.1.3 Eithriadau

Efallai y byddir yn caniatáu eithriadau mewn perthynas â rhai gofynion unigol penodol y safonau ansawdd, cyn belled â bod yr holl ofynion a'r lefelau ansawdd eraill ar gyfer y radd honno yn cael eu bodloni neu y rhagorir arnynt. Bydd yr hyblygrwydd hwnnw yn cael ei bennu fesul achos. Bydd unrhyw eithriadau yn golygu y bydd angen cynnydd cymesur mewn ansawdd mewn agweddau eraill er mwyn digolledu am yr elfen y ceisir eithrio mewn perthynas â hi.

1.1.4 Sut mae'r System Asesu yn Gweithio?

Yn gryno, mae yna dair elfen i'r broses

Cam 1 – Mae Ymgynghorydd Ansawdd (QA) Croeso Cymru yn rhoi sgôr ansawdd i'r busnes cyfan.

Cam 2 – Yna mae'r QA yn gwirio bod elfennau penodol y busnes yn bodloni'r hyn a elwir yn 'Gymwysyddion Adrannol' o ran ansawdd.

Cam 3 – Yn olaf, mae'r QA yn gwirio bod gofynion o ran cyfleusterau a gwasanaethau, sy'n briodol i'r Radd sêr, yn bresennol ac ar gael.

Cam 1

Mae'r ymweliad yn dechrau wrth i'r Ymgynghorydd Ansawdd gynnal asesiad gwrthrychol, ansoddol o bob agwedd o'ch busnes, o gyflwr yr adeilad ei hun, y celfi, dodrefn ayyb. i'r gwasanaethau a gynigir i'r gwesteion. Yn ei hanfod, rhoddir sgôr i bob elfen a asesir, a mae'r sgôr hwnnw yn cyfateb i ddisgrifiad lefel ansawdd. Defnyddir graddfa o 1 i 5, felly os oes ansawdd Rhagorol i rywbeth, mae'n cael 5 pwynt; os ystyrir ei fod yn Dderbyniol rhoddir sgôr o 1. Er mwyn sicrhau bod yr asesu'n ddiduedd, mae ein Hymgyngorwr Ansawdd yn cael hyfforddiant ac yn dilyn canllawiau penodol. Mae'r gwahanol bwyntiau gwerth yn arwydd o lefelau ansawdd cynyddol, sef:

- Ansawdd Rhagorol – 5 pwynt
- Ansawdd da iawn – 4 pwynt
- Ansawdd da – 3 phwynt
- Ansawdd eithaf da – 2 bwynt
- Ansawdd derbyniol – 1 pwynt

Pan fo'r adroddiad wedi ei chwblhau a'r pwyntiau wedi eu pennu, cyfrifir y cyfanswm, ac yna cyfrifir sgôr ganrannol ar gyfer ansawdd y busnes cyfan. Drwy edrych ar ystod canrannau bandiau sêr, mae'r Ymgynghorydd Ansawdd yn ystod y cam yma yn cael awgrym o beth allai'r Radd sêr derfynol fod.

Gradd Sêr	Canrannau Lefel Mynediad
★	30 – 46%
★★	47 – 54%
★★★	55 – 69%
★★★★	70 – 84%
★★★★★	85 – 100%

Fodd bynnag, cyn penderfynu ar y canlyniad terfynol, mae yna ddau gam arall.

Cam 2

Nawr mae'n rhaid i'r QA wirio cysondeb ansawdd gan ddefnyddio'r hyn yr ydym yn ei alw'n 'Gymwysyddion Adrannol'. Pwrpas hyn yw sicrhau nad yw un elfen o'r busnes sydd wedi bod yn sgorio'n uchel wedi codi'r marc canrannol cyffredinol i'r lefel Gradd sêr nesaf, ac y bydd hynny'n rhoi camagraff i'r gwesteion ynghylch yr ansawdd yn gyffredinol. Mae ymchwil wedi dangos bod ansawdd elfennau penodol mewn gwesty yn arbennig o bwysig i westeion. Os bydd yr elfennau hynny yn is na disgwyliadau'r gwesteion ar lefel Gradd sêr benodol, maent yn debygol o fod yn gwsmeriaid siomedig. Felly, mae'n bwysig iawn bod ansawdd yr elfennau critigol yma yn cyfateb i radd cyffredinol y busnes.

Yr elfennau allweddol yw Glendid, Lletygarwch, Gwasanaeth, Ystafelloedd Gwely, Ystafelloedd Ymolchi a Bwyd, ac mae'r sgoriau a roddir yn y meysydd yma yn cael eu defnyddio i gadarnhau'r Radd sêr derfynol. Mae gan bob un o'r meysydd cymhwyso yma isafswm sgôr canrannol ar bob lefel, ond os na chyrrhaeddir yr isafswm sgôr ar gyfer 1 Seren, ni fydd Gradd sêr yn cael ei rhoi.

Isod ceir yr isafswm sgôr canrannol ar bob lefel.

Gradd Sêr	★	★★	★	★★	★★
			★★	★★	★★★
Glendid	40	50	65	75	90
Lletygarwch	30	47	55	70	85
Gwasanaeth	30	47	55	70	85
Ystafelloedd Gwely	30	47	55	70	85
Ystafelloedd Ymolchi	30	47	55	70	85
Bwyd	30	47	55	70	85

Cam 3

Yn olaf, mae'n rhaid gwirio a sicrhau bod unrhyw gyfleusterau/gwasanaethau ychwanegol sy'n ofynnol ar bob lefel benodol yn bodoli ac ar gael, yn ogystal â'r rhai sy'n ofynnol ar yr holl lefelau Sêr blaenorol.

Pam Fod Ansawdd Yn Bwysig

Mae Croeso Cymru yn deall bod ansawdd yn allweddol i lwyddiant y diwydiant lletygarwch. Er mwyn cynnal enw da Cymru yn rhyngwladol am ddarparu croeso cyfeillgar a chynnes i ymwelwyr, mae'n bwysig ein bod yn parhau i gynorthwyo busnesau ymwelwyr i barhau i fod yn gystadleuol a gwella'r cynnyrch sydd ganddynt i'w gynnig; dyluniwyd y cynllun Sicrhau Ansawdd er mwyn helpu busnesau i wneud hynny.

Nid yw ansawdd byth yn mynd allan o ffasiwn – mae eich sêr rhagoriaeth yn helpu i ymwelwyr wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, i roi hyder yn lefel y gwasanaeth a'r ansawdd yr ydych yn ei ddarparu ac yn galluogi eich busnes i ddisgleirio gyda rhagoriaeth.

Mae nifer sylweddol o weithredwyr twristiaeth yng Nghymru eisoes yn cymryd rhan yn y cynllun. Mae'r busnesau hyn yn derbyn cyngor diduedd ac arbenigol er mwyn hysbysu eu penderfyniadau buddsoddi – gan wella ansawdd a chreu swyddi.

Wrth asesu ansawdd, mae Croeso Cymru yn ystyried y canlynol:

- Ansawdd cynhenid – yr ansawdd cynhenid ar eitem
- Cyflwr – edrychiad eitem a sut mae'n cael ei gynnal a'i gadw. A yw'n addas i'r diben?
- Cyfforddusrwydd corfforol a phersonol – a yw ansawdd eitem mewn unrhyw ffordd yn effeithio ar gyfforddusrwydd y defnyddiwr?
- Sylw i fanylder – y gofal amlwg a gymerwyd i sicrhau bod profiad y gwesteion yn mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau.
- Dewis i'r gwesteion a rhwyddineb defnyddio – mae profiad y gwesteion yn cael ei gyfoethogi drwy gynnig dewis, boed hynny'n ddewis o ddiodydd yn yr ystafell neu ddewis tymheredd yr ystafell. Mae hynny yn cael ei gyfoethogi ymhellach gan pa mor hawdd yw hi i'r gwestai ddefnyddio'r ystafell a'i chynnwys.
- Cyflwyniad – y ffordd y mae'r ystafell a'i chynnwys yn cael eu cyflwyno ar gyfer cyrrhaeddiad y gwesteion a thrwy gydol eu harhosiad.

Gwasanaeth a lletygarwch

Mae gwên, diddordeb annwyl a didwyll a pharodrwydd i blesio a gwasanaethu cwsmeriaid yn ofyniad cyffredin, ac mae'n ddisgwyliedig ar draws pob gradd sêr.

Efallai bod gwesty bychan yn gallu darparu lletygarwch rhagorol a gwasanaeth cyfeillgar ac effeithlon gyda nifer fach iawn o staff.

Bydd gwestai mwy angen tîm o staff wedi eu hyfforddi'n dda, ac mae honno yn her wahanol.

Ar lefel pedair seren mae'n ddisgwyliedig y bydd staff wedi'u hyfforddi'n dda ac yn sgiliedig iawn, ac yn gallu rhagdybio anghenion eu gwesteion a darparu gwasanaeth effeithlon am mhob maes, a lletygarwch o'r un safon.

Dylai gwestai pum seren yng Nghymru gynnig lefel gwasanaetha a rhagoriaeth lletygarwch fyddai'n cael ei gydnabod yn gyffredinol fel

gwasanaeth pum seren gan ymwelwyr o bedwar ban byd.

Ystafelloedd Gwely ac Ystafelloedd Ymolchi

Beth bynnag fo steil neu gysyniad yr ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi, ansawdd a chyfforddusrwydd yw'r hyn y bydd gwesteion a'n haseswyr yn ei ddisgwyl, yn benodol:

- Ansawdd a chyfforddusrwydd y gwely.
- Ansawdd y dillad gwely.
- Pa mor hawdd yw rheoli a defnyddio'r systemau goleuo a gwresogi.
- Ansawdd gosodiadau'r ystafell ymolchi, tyweli a pethau ymolchi.
- Technoleg a chysylltedd yn yr ystafell.

Glendid

Mae glendid yn eithriadol bwysig i bob cwsmer ar bob lefel sêr. Mae'n ddisgwyliedig y bydd pob gwesty yn lân ym mlaen y tŷ a chefn y tŷ.

Naws am Le

Er nad yw ansawdd fyth yn mynd allan o ffasiwn, bydd ychwanegu nawws am le i brofiad yr ymwelydd yn cyfrannu llawer at sicrhau y bydd yr arhosiad yn un cofiadwy.

Gall fod yn rhywbeth syml, fel ychwanegu arwyddion, cynnyrch, neu nodwedd o'ch busnes er mwyn ychwanegu ychydig o flas lleol. Neu gallwch ganfod ychydig o wybodaeth ddiddorol am eich ardal sy'n ychwanegu at eich gwybodaeth ranbarthol, a throsglwyddo hynny i'ch ymwelwyr. Mae 'croeso' yn unig yn rhoi argraff gyntaf neilltuol a bendigedig.

Rydym wedi llunio trosolwg o frand Cymru a chanllawiau ar ein nawws am le. Gobeithio y bydd yr offer yma yn rhoi ychydig o syniadau i chi ynghylch sut mae creu profiad bythgofiadwy i ymwelwyr.

Ewch i <http://businesswales.gov.wales/tourism/cy/dolenni-defnyddiol> i gael mwy o wybodaeth.

Bwyd a Diod

Mae bwyd a diod yn mynd law yn llaw â lletygarwch a thwristiaeth yng Nghymru. Mae bwyd yn gynyddol yn ddylanwad pwysig ar benderfyniad pobl i ymweld â Chymru. Erbyn hyn mae ymwelwyr yn fwy craff, ac yn cymryd diddordeb yn nharddiad bwyd a beth sy'n digwydd ar hyd y daith i'w plât.

Os ydych yn cyfuno bwyd tymhorol o safon a chynhwysion lleol, lleydd diddorol i fwyta ac aros ynddynt, a rhai o gogyddion gorau'r byd, rydych yn diffinio'r sector lletygarwch yng Nghymru a'i enw da haeddiannol am ragoriaeth.

Er mwyn helpu i fusnesau ddatblygu'r hyn maent yn ei gynnig o ran bwyd, rydym wedi datblygu pecynnau hawdd i'w defnyddio.

Pecyn Twristiaeth Bwyd – Awgrymiadau, cyngor, sampl a fwydlenni ac arferion gorau fydd yn ddefnyddiol i'ch busnes.

Pecyn Brecwast Cymreig – Mwy o awgrymiadau a chyngor ar gynnig brecwast Cymreig gwych a sampl o fwydlenni.

Ewch i <http://businesswales.gov.wales/tourism/cy/dolenni-defnyddiol> i gael mwy o wybodaeth.

1.2 Categori

1.2.1 Gwesty

Bydd unrhyw sefydliad sy'n gweithredu gyda'r gair 'gwesty' fel rhan o'u henw busnes yn cael eu hasesu drwy ddefnyddio'r gofynion gwestai a restrir yn y llyfryn hwn.

1.2.2 Disgrifiad cyffredinol

Sefydliad masnachol sy'n darparu lleiafswm o bum ystafell wely a osodir, ac sy'n gweini brecwast. Efallai bod gan y sefydliad drwydded i weini alcohol. Pan na chynigir gwasanaeth gweini bwyd bydd hynny yn cael ei egluro i'r cwsmeriaid ar yr adeg archebu, ac yn cael ei egluro'n amlwg ar y wefan, ac mae'n rhaid bod yna amrywiaeth o lefydd yfed a bwyta o safon o fewn pellter cerdded hawdd.

1.3 Pennu Grað Sêr

Bydd angen i westy fodloni tair elfen er mwyn cyrraedd gradd sêr benodol:

- Mae'n rhaid bodloni'r holl ofynion perthnasol.
- Mae'n rhaid i'r sgôr ganrannol gyffredinol ar gyfer ansawdd gyrraedd y band priodol.
- Yr ansawdd safon perthnasol yn y chwe maes critigol a nodir isod.

Mae yna naw maes asesu allweddol. Y chwech mwyaf critigol yw:

- Glendid
- Lletygarwch a Chyfeillgarwch
- Gwasanaeth ac Effeithlonrwydd
- Ystafelloedd gwely
- Ystafelloedd ymolchi
- Ansawdd Bwyd

Mae'n rhaid bodloni'r lefel gradd sêr ar draws y chwe maes yma er mwyn cyrraedd gradd

sêr benodol. Y tri maes arall yw: y tu allan, ardaloedd cyhoeddus, ystafell bwyta/tai bwyta. Pan ddarperir cyfleusterau ychwanegol e.e. sba, bydd y rhain hefyd yn cael eu hasesu.

2.0 Gofynion Manwl

2.1 Safonau Cyffredinol

2.1.1 Rhwymedigaethau statudol

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren) Pob Gradd

Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus: er nad yw'n ofyniad statudol, mae'n ofynnol er mwyn cymryd rhan yn y cynllun hwn. Efallai y byddir yn gofyn i berchnogion ddarparu tystiolaeth bod ganddynt Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a bod y gofynion yn cael eu bodloni.

Cyflawni pob rhwymedigaeth statudol perthnasol yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Asesiad risg tân: cydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoliadau Tân (Diogelwch Tân) 2005
- Diogelwch/hylendid bwyd.
- Iechyd a Diogelwch: gweithredu'n ddiogel gan roi sylw dyledus i ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.
- Cynllunio: cydymffurfio â rheoliadau cynllunio lleol.
- Trwyddedu: cydymffurfio â'r holl reoliadau trwyddedu lleol.
- Deddf Perchnogion Gwestai.
- Deddf Diogelu Data/Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (o Fai 2018)
- Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008.
- Deddf Cydraddoldeb 2010.

2.1.2 Diogelwch Personol a Diogelwch Eiddo

Un Seren

- Y perchennog a/neu staff i fod ar y safle ac ar alw ar gyfer gwesteion preswyl 24 awr y dydd. Cyfarwyddiadau wedi eu hargraffu yn yr ystafelloedd gwely, ar gyfer galw am gymorth yn ystod argyfwng yn ystod y nos. Os nad yw'r perchennog yn byw yn y gwesty, mae'n ddisgwyliedig bod aelod o'r tîm rheoli neu staff yn cysgu ar y safle a bod eu manylion cyswllt yn ystod y nos yn cael eu harddangos ym mhob ystafell wely.

- Mae'n rhaid i wybodaeth sylweddol am ddiogelwch cyffredinol, yn cynnwys gwybodaeth am weithdrefnau gwacau mewn achos brys, gael ei harddangos ym mhob ystafell wely. Hysbysiadau amlieithog am weithdrefnau mewn achosion brys neu ddefnydd o symbolau/diagramau wedi eu harddangos yn glir ym mhob ystafell wely.
- Sylw penodol yn cael ei roi i ddiogelwch gwesteion a'u heiddo mewn meysydd parcio, y llawr isaf ac ystafelloedd gwely atodol yn cynnwys llwybrau cerdded allanol.
- Ar ôl cofrestru, dylai gwesteion gael mynediad i'r gwesty drwy'r amser.
- Er mwyn diogelwch, dylai gwesteion gael eu hebrwng i'r ystafelloedd gwely os gofynnir am hynny.
- Dylai mynediad y gwesty fod yn amlwg a'r fynedfa wedi ei goleuo pan mae'n dywyll. Digon o olau ar gyfer diogelwch a chyfforddusrwydd ym mhob ardal gyhoeddus, yn cynnwys digon o olau ar risiau a phen grisiau yn ystod y nos.
- Ffôn sy'n hygyrch 24 awr y dydd, oni bai y darperir ffonau deialu uniongyrchol ym mhob ystafell wely.
- Mesurau digonol ar gyfer diogelwch gwesteion a'u heiddo. Ffordd o ddiogelu drysau ystafelloedd gwely o'r tu mewn a thu allan, ac allwedd neu allwedd cerdyn yn cael ei ddarparu. Y broses o roi allwedd i ystafelloedd a chodi am eitemau ar gyfrif y gwesteion yn cael ei wneud yn gynnil bob amser er mwyn sicrhau diogelwch gwesteion.
- Gosodiadau diogelwch ar unrhyw ffenestr allai gael ei gadael yn agored fyddai'n caniatáu mynediad o'r tu allan e.e. ffenestri ger allanfeydd tân.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pum Seren

- Gofynion sylfaenol.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Gall defnyddio bylbiau golau a gosodiadau ynni effeithlon, wedi eu cyfuno â rheolyddion priodol er mwyn sicrhau nad yw goleuadau ymlaen yn ddiangen, leihau costau yn

sylweddol. Gellir defnyddio synwryddion golau dydd (celloedd ffoto), synwryddion symudiad (PIR) ac amseryddion ar oleuadau allanol. Gellir rheoli goleuadau mewn ardaloedd a choridorau cyhoeddus â synwryddion symudiad ac amseryddion, er enghraifft. Fel arfer gellir pylu goleuadau allanol ar ôl hanner nos, yn arbennig pan fo'n olau addurniadol.

- Sicrhewch eich bod bob amser yn cynnal lleiafswm lefelau golau fel nad ydych yn cyfaddawdu ar safonau iechyd a diogelwch.
- Gall nifer o fusnesau greu arbedion ychwanegol drwy ddefnyddio deuod allyrru golau (LED) neu arwyddion Allanfeydd wedi eu goleuo.

2.1.3 Cynnal a chadw

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren) Pob Gradd

- Adeiladau, ffitiadau, dodrefn, gosodiadau, décor allanol a mewnol mewn cyflwr cadarn a glân, ac yn addas i'r diben.
- Yr holl offer trydanol a nwy yn gweithio'n iawn ac yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau diogelwch gwesteion.
- Gweithdrefn fonitro wedi ei sefydlu ar gyfer cofnodi eitemau wedi malu/difrodi yn ystafelloedd gwesteion.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pum Seren

- Gofynion sylfaenol.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Sicrhau bod offer megis boeleri, oergelloedd a systemau awyru a thrapiau sain mewn ceginau, yn cael eu cynnal a'u cadw a'u glanhau a'u gwasanaethu yn briodol a rheolaidd, fel eu bod yn gweithio'n effeithlon a'u bod yn para'n hirach. Bydd sefydlu amserlen cynnal a chadw offer syml yn arbed ynni a chostau.
- Gall trefnu i staff fynd i gerdded o gwmpas yr adeiladau ar adegau gwahanol o'r dydd gyda rhestr wirio fod yn gyfle gwych i gofnodi unrhyw broblemau ynghylch

cynnal a chadw ac er mwyn cael syniad o ble mae ynni'n cael ei wastraffu drwy adael goleuadau ac offer ymlaen.

- Gall oergelloedd ddefnyddio llawer o ynni mewn gwestai, a gall dilyn cyngor syml arwain at arbedion cost sylweddol: sicrhau bod seliau drysau yn cael eu gwirio a'u newid os ydynt yn ddiffygiol; sicrhau nad oes llwch ar goiliau cyddwysyddion ac anweddyddion; mae llenni stribedi yn cael eu gosod ar oergelloedd a rhewgelloedd y gellir cerdded i mewn iddynt, a mae rhewgelloedd yn cael eu dadmer yn rheolaidd. Sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi i ddiffodd golau mewn mannau wedi eu hoeri; peidio â chadw drysau'n agored am yn hirach nag sydd wirioneddol raid; peidio â gorlenwi unedau.
- Ewch ati i gofnodi a deall eich defnydd o ynni. Cofnodwch ddarlleniadau mesuryddion unwaith y mis a gwirio hynny yn erbyn eich anfonebau er mwyn sicrhau bod eich biliau yn gywir. Gall perthnasu eich data defnyddio ynni â mesuriadau eraill, er enghraifft cyfrifo defnydd ynni am bob noson mewn gwely, roi gwybodaeth hyd yn oed mwy defnyddiol i chi. Bydd hynny yn rhoi gwell dealltwriaeth i chi o sut y mae ynni yn cael ei ddefnyddio, yn eich helpu i gadw golwg ar fuddion camau arbed ynni a gymerwyd a chanfod unrhyw newidiadau anarferol. Mae systemau darllen mesuryddion awtomatig ar gael ac maent yn ffordd syml a chost effeithiol o gasglu data manwl ar ynni.
- Os oes gennych fesurydd dŵr, bydd monitro eich defnydd o ddŵr yn rheolaidd yn eich helpu i reoli defnydd a chost a chanfod unrhyw ollyngiadau yn gyflym.
- Gall gwybod pa fath o wastraff a faint ohono a gynhyrchir, ac ym mha rannau o'r busnes mae hynny'n digwydd, eich helpu i dargedu meysydd ar gyfer lleihau gwastraff. Gweithiwch gyda'ch contractwr gwastraff er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn gwybodaeth fanwl ar faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu, sy'n mynd i dirlenwad neu a brosesir fel arall. Bydd hynny yn eich galluogi i bennu a monitro targedau er mwyn cynyddu ailgylchu a lleihau'r gwastraff a gynhyrchir yn gyffredinol.
- Rhannwch y canlyniadau monitro gyda staff er mwyn eu cynnwys, a'u hymgysylltu ag ymdrechion i arbed ynni a dŵr a lleihau gwastraff.

2.1.4 Glendid

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren) Pob Gradd

Safonau glendid uchel yn cael eu cynnal yn yr eiddo drwyddo draw.

Oherwydd bod glendid gwestai ar bob gradd sêr yn eithriadol bwysig i'r cwsmer, mae'n ddisgwyliedig i safonau glendid fod yr un fath ar gyfer pob gradd sêr.

Dylid rhoi sylw penodol i ystafelloedd ymolchi, ystafelloedd cawod a thoiledau, yn arbennig eitemau sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â'r gwasteion, yn cynnwys:

- Dillad gwelyau, lliniau a thyweli.
- Baddonau, cawodydd, basnau ymolchi a thoiledau.
- Lloriau a seddi.
- Llestri, cytleri a gwydrau yfed.
- Pob ystafell ymolchi a ystafell gawod yn cael eu glanhau'n ddyddiol a'u gwirio er mwyn sicrhau safonau glendid uchel iawn.
- Ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd cawod yn lân ac yn aroglï'n ffres. Sylw penodol yn cael ei roi i doiledau, tyllau plwg, llenni cawodydd, drychau a ffannau echdynnu.
- Yr holl walïau, nenfydau, pibellau, silffoedd, offer a gosodiadau, na ellir eu cyrraedd o lefel y llawr, yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Dim llwch, baw, saim na marciau ar wynebaw gwastad, offer na dodrefn.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Five Star

- Safonau Cymhennu Rhagorol.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Sicrhau nad yw staff cymhennu yn symud dodrefn ac eitemau personol yn yr ystafell ymolchi na'r ystafell wely, oherwydd yn y rhan fwyaf o'r achosion maent yn cael eu gosod mewn llefydd sy'n hygyrch i'r gwasteion.
- Sicrhau nad yw trolïau cymhennu yn achosi rhwystr ar gorïdorau.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Sicrhau bod yr holl staff perthnasol wedi cael eu hyfforddi'n briodol o ran defnyddio a dogni cemegau glanhau. Annog staff i leihau'r ynni a'r dŵr a ddefnyddir wrth lanhau ystafelloedd, er enghraifft drwy fflysiô'r tolïed unwaith yn unig ar ôl gorffen glanhau, diffodd goleuadau ac offer adloniant ac addasu rheolyddion gwresogi.
- Ystyried defnyddio cynhyrchion glanhau amgylcheddol gyfeillgar a di-glorin, megis cadachau microffibr, sy'n lleihau faint o hylif glanhau sydd ei angen.
- Mae glanhau a chynnal a chadw ffitiadau, gosodiadau, deunyddïau ac offer yn rheolaidd yn golygu eu bod yn para yn hirach, sy'n lleihau'r angen i'w newid.
- Mae goleuadau yn hanfodol er mwyn creu profiad dymunol i'r gwasteion, felly mae'n bwysig cadw ffenestri, ffenestri to a gosodiadau goleuo yn lân, er mwyn manteisio'n llawn ar y golau sydd ar gael.

2.1.5 Lletygarwch a gwasanaethau

Cyffredinol

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Ar bob Gradd, dylid cyfarch a chydabod y gwasteion mewn modd gyfeillgar, effeithlon a chwrtais drwy gydol eu harhosiad. Dylai'r staff gael agwedd gymwynasgar.
- Amrywiaeth cymharol syml o wasanaethau yn cael eu cynnig – yn aml yn cael eu darparu gan y perchennog a'r teulu/staff.
- Delio â'r holl ymholiadau, ceisiadau ac archebiadau, gohebiaeth a chwynion gan ymwelwyr yn brydlon a chwrtais.
- Pob ymdrech yn cael ei wneud i ystyried anghenion unigol y gwasteion.
- Gall steil y gwesty bennu sut mae'r staff yn gwisgo – o lifrai ffurfiol i wisgoedd anffurfiol a hamddenol.
- Gwasanaeth, effeithiolrwydd a sgiliau technegol o safon da.
- Pob staff i ddangos agwedd bositif a pharodrwydd i helpu.

Dwy Seren

- Gwasanaeth gwasteion da, rhagdybio gofynion gwasteion.

Tair Seren

- Gwasanaeth gwasteion da iawn, gyda digon o staff i ddarparu gwasanaeth prydlon, chwrtais ac effeithlon.

Pedair Seren

- Sgiliau cymdeithasol rhagorol a'r gallu i ragdybio anghenion unigol gwesteion yn amlwg. Y gallu i bersonoli profiad y gwesteion yn cael ei annog.

Pum Seren

- Sgiliau cymdeithasol eithriadol a'r gallu i ragdybio anghenion gwesteion unigol er mwyn creu profiad unigryw a chofiadwy.
- Gwasanaeth ac effeithlonrwydd o safon eithriadol heb aberthu meysydd gwasanaeth eraill ar unrhyw adeg, a hynny yn cael ei ddarparu gan dîm strwythuredig o staff sydd â hierarchaeth o reoli ac arolygaeth.
- Pan fo angen yn y farchnad, dylid rhoi peth ystyriaeth i gael staff amlieithog.
- Edrychiad y staff yn ddilychwin.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Sicrhau bod staff yn gofyn i'r gwesteion a oes ganddynt anghenion mynediad.
- Mae'n rhaid croesawu cŵn tywys (mae hynny yn ofyniad cyfreithiol). Mae nifer o bobl anabl yn dibynnu ar gŵn tywys i roi annibyniaeth iddynt. Gweld y ci fel rhan o'r unigolyn.
- Sicrhau bod gwesteion sy'n nodi eu bod yn anabl e.e. rhai â nam ar y golwg, yn cael cynnig taith ymgysylltu.
- Sicrhau bod manylion strategaeth gwacau a gweithdrefnau allanfeydd argyfwng ar gael i bobl anabl. Cofiwch, efallai na fydd gwesteion â nam ar y clyw yn clywed rhywun yn curo ar y drws. Cofnodwch leoliad ystafelloedd ac unrhyw ofynion penodol a throsglwyddo hynny i'r staff wrth newid shifftiau.
- Ystyriwch ddysgu cyfathrebu drwy gyfrwng laith Arwyddion Prydeinig (BSL).

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Ystyriwch ddrafftio a hyrwyddo polisi amgylcheddol, sy'n nodi'r camau amgylcheddol a rheoli cynaliadwy y mae eich busnes wedi eu cymryd. Os yw eich gwesty yn rhan o sefydliad mwy sydd â pholisi amgylcheddol, sicrhewch bod pawb yn gwybod sut y mae'n gymwys i'ch safle penodol chi. Dylai'r polisi fod ar gael yn gyhoeddus. Er enghraifft, gall fod ar gael ar wefan y busnes, ar y safle yn y cyntedd ac yn ffolderi'r ystafelloedd, ac ar hysbysfyrdau mewn ardaloedd staff. Sicrhewch bod yr holl staff yn cael eu briffio'n llawn a'u diweddarau ynghylch polisi cynaliadwyedd y gwesty.

- Gall ymgysylltu â staff a'u cynnwys wrth gynllunio gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd, a sut mae eu rhoi ar waith, fod yn rhan allweddol o'u llwyddiant. Gall sefydlu 'Tîm Gwyrdd' sy'n cyfarfod yn rheolaidd, yn cynnwys rheolwyr a staff allweddol o wahanol adrannau, fod yn fuddiol o ran denu diddordeb staff a sicrhau eu bod yn parhau i ymgysylltu a chael eu hysgogi. Dylid hysbysu'r holl staff am bolisi cynaliadwyedd y gwesty, a dylid eu hyfforddi ynghylch sut mae gweithredu camau cynaliadwyedd sy'n berthnasol i'w maes gwaith.
- Gallai gwybodaeth am sut mae mynd o gwmpas yr ardal ar gludiant cyhoeddus, pan fo'n briodol, yn arbennig i atyniadau allweddol, fod yn ddefnyddiol, ac anogwch rai gwesteion i ddefnyddio llai ar eu ceir. Sicrhewch bod y staff yn ymwybodol o'r opsiynau a'u bod yn gallu argymhell sut mae mynd i lefydd heb ddefnyddio ceir ac argymhell llwybrau cerdded o'r gwesty.

2.2 Gwasanaethau

2.2.1 Archebu, prisiau a biliau

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

Dylid cael gwasanaeth archebu syml ac effeithlon sy'n cynnwys y canlynol:

- Hysbysu ymwelwyr arfaethedig beth yn union sy'n gynwysedig yn pris a godir am y llety, prydau bwyd a lluniaeth, yn cynnwys cost gwasanaeth, trethi a gordaliadau eraill.
- Y gallu i archebu yn brydlon ac effeithiol yn ystod y dydd a'r nos.
- Dylai'r dull o gyfathrebu â gwesteion arfaethedig, boed hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig, fod yn brydlon, effeithlon, proffesiynol a chymwynasgar. Mae argraff gyntaf yn gritigol ar bob gradd.

Felly:

- Ni ddylid codi mwy na'r pris y cytunwyd arno ar adeg archebu.
- Mae'n rhaid i'r holl brisiau cytunedig gynnwys costau gwasanaeth, trethi ac unrhyw ordaliadau eraill pan fo hynny'n gymwys.
- Dylid gwneud pob ymdrech i roi gwybod i wwesteion ymlaen llaw am leoliad y gwesty, unrhyw gyfyngiadau parcio, a lleoliad eu hystafell os ydyw mewn adeilad gwahanol.
- Gwybodaeth arall all effeithio ar arhosiad gwesteion e.e. polisi ysmegu, gwaith

adnewyddu, digwyddiadau sydd wedi eu cynllunio ayyb yn cael ei darparu. Pan fo polisi'r tŷ yn nodi bod angen archebu rhai cyfleusterau ymlaen llaw e.e. triniaethau sba, cinio ayyb dylid cyfeirio at hynny hefyd ar adeg archebu.

- Pan na ddarperir gwasanaeth bwyd neu wasanaeth bwyd cyfyngedig yn unig, dylid egluro hynny ar adeg archebu ac ar eich gwefan er mwyn osgoi siomi'r gwesteion.
- Manylion llawn am bolisi canslo'r gwesty. Mae gwybodaeth am godi ar gardiau credyd am ganslo neu newidiadau i'r archeb yn arbennig o bwysig.
- Gwybodaeth am flaendaliadau, os yn ofynnol, yn cynnwys manylion am sut y cymerir y blaendaliadau, a p'un a yw hynny'n ad-daladwy wrth ganslo.
- Eglurhad clir o gostau gwasanaethau ychwanegol neu gyfleusterau sydd ar gael yn cynnwys telerau canslo.
- Gwybodaeth am unrhyw ddulliau talu annerbyniol e.e. Cardiau credyd ayyb.
- Cadarnhad yn cael ei roi gan y gwesty ar gais (nid yn unig gan safleoedd archebu trydydd parti) drwy e-bost, neges destun neu lythyr.
- Gwesteion arfaethedig yn teimlo'n hyderus bod eu archeb wedi ei gofnodi'n gywir.
- Enw, cyfeiriad a/neu rif ffôn o leiaf wedi eu cofnodi ar adeg archebu.
- Yr holl broses o archebu yn cael ei wneud mewn modd gyfeillgar a chwrtais, hyd yn oed os nad oes yna adran archebu penodol.
- Darparu manylion am daliadau dyledus wedi eu hargraffu neu eu hysgrifennu'n glir i bob gwestai a derbynneb ar gais.
- Cyflwyno cyfrifon gan sicrhau bod yr holl bryniannau wedi eu nodi'n glir.
- Dylid nodi elfen TAW y cyfrif (pan fo'n gymwys) yn glir.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Dylai gwesteion allu talu am yr holl wasanaethau drwy un prif gyfrif.

Pedair Seren

- Cadarnhad yn cael ei roi drwy e-bost/neges destun neu lythyr gan y gwesty (nid yn unig gan safleoedd archebu trydydd parti).

Pum Seren

- Pob archeb yn cael ei gadarnhau drwy lythyr, e-bost neu neges destun.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Cynigiwch ddewis i'r gwesteion o ran sut y gellir cysylltu â chi e.e. ffôn, ffacs, llythyr, e-bost, ac ewch ati i gael gwybodaeth am Text Relay a ddefnyddir gan bobl â nam ar y clyw yn www.textrelay.org
- Gofynnwch bob amser a oes gan yr ymholwr neu unrhyw un o'r gwesteion yn y parti, unrhyw ofynion mynediad penodol.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Ystyriwch sefydlu proses archebu a bilio dibapur er mwyn arbed arian ac offer swyddfa a chostau postio a lleihau gwastraff. Gallai'r cynhyrchion papur a ddefnyddir yn y swyddfa dod o stoc papur wedi ei ailgylchu.
- Dylech gynnwys opsiynau cludiant cyhoeddus er mwyn cyrraedd yr eiddo yn eich gwybodaeth hyrwyddo a gwybodaeth archebu. Gallai gwybodaeth gyffredinol am yr arosfeydd a'r gorsafedd agosaf, a theithio o gwmpas ar gludiant cyhoeddus yn yr ardal, pan fo'n briodol, fod yn fuddiol hefyd, ac anogwch rai gwesteion i ddefnyddio llai ar eu ceir neu hyd yn oed adael eu ceir adref.
- Hysbyswch y gwesteion am yr atyniadau a'r digwyddiadau naturiol a diwylliannol yn yr ardal leol. Hysbyswch hwy am weithgareddau yn yr ardal e.e. cerdded a seiclo, a chynnig syniadau neu deithlenni ar eich gwefan cyn iddynt archebu. Efallai y bydd hynny yn eu hannog i aros am gyfnod hirach.
- Yn ystod yr adegau tawelach y tu allan i'r tymor gwyliau, gallech ddarparu cynigion arbennig a chreu pecynnau â busnesau eraill yn yr ardal leol, megis atyniadau, tai bwyta a darparwyr gweithgareddau.

2.2.2/3 Derbynfya a Chymorth â Bagiau

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Oherwydd ei bod yn debygol mai'r dderbynfya fydd y pwynt cyswllt cyntaf ac olaf i'r gwesteion gyda'r gwesty, dylid rhoi sylw arbennig i ddarparu gofal cwsmeriaid o safon uchel.
- Cyswllt uniongyrchol â chwsmeriaid yn cael blaenoriaeth ar ddyletswyddau eraill yn y dderbynfya.
- Gwesteion yn cael eu cyfarwyddo'n glir i'w hystafelloedd ac yn cael eglurhad cryno o leoliad cyfleusterau'r gwesty.
- Cymorth gyda bagiau ar gael ar gais drwy gydol y dydd a'r nos.

- Ar ôl cofrestru, dylai gwesteion preswyl gael mynediad i'r gwesty drwy'r amser. Y perchennog a/neu staff i fod ar y safle ac ar alw ar gyfer gwesteion preswyl 24 awr y dydd.
- Mae'n dderbyniol i allwedd drws ffrynt neu god diogelwch gael ei roi.
- Hysbysu gwesteion am amseroedd bwyta, amseroedd agor y bar etc.
- Storfa fagiau tymor byr diogel.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Gwasanaethau derbynfa ar gael rhwng 7yb a 11yh o leiaf.
- Dylid ystyried darparu derbynfa 24 awr pan fo angen yn y farchnad.
- Cymorth gyda bagiau yn cael ei gynnig wrth gyrraedd ac yn cael ei hysbysebu fel gwasanaeth sydd ar gael wrth adael.

Pum Seren

- Y gallu i archebu yn brydlon ac effeithiol yn ystod 24 awr y dydd.
- Derbynfa yn agored 24 awr y dydd pan fo angen yn y farchnad, er enghraifft gwestai canol dinas.
- Pan gynnigir parcio valet, mae'r gwesteion yn cael eu cyfarch y tu allan i'r gwesty heb oedi.
- Mae gwesteion yn cael eu tywys i'w hystafelloedd ac yn cael arweiniad llawn ar gyfleusterau'r gwesty a'r ystafell wely.
- Staff y gwesty yn gofalu am fagiau gwesteion wrth gyrraedd y tu allan ac yn eu danfon yn brydlon i'r ystafell wely. Yr un safon o wasanaeth yn cael ei ailadrodd wrth adael.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Gwasanaeth bagiau yn cael ei gynnig yn safonol.

2.2.4 Arall – Derbynfa/Concierge/ Gwasanethau Cadw Tŷ

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Haearn smwddio a bwrdd smwddio ar gael.
- Gwybodaeth briodol am dwristiaeth, teithio a gwybodaeth leol briodol ar gael sy'n addas i anghenion y farchnad.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gwybodaeth am deithio a gwybodaeth leol wedi ei chyflwyno'n dda, megis manylion am atyniadau ymwelwyr, cwmnïau tacsî, banciau, eglwysi, gorsafoedd rheilffyrdd ayyb ar gael yn yr ystafelloedd gwely.

Pedair Seren

- Gwasanaeth golchi dillad a gwasanaeth sychlanhau o bosibl yn cael eu darparu a'u hysbysebu ynghyd â phrisiau.
- Gellir archebu a danfon papurau newydd i ystafelloedd gwely'r gwesteion.

Pum Seren

- Gwasanaeth golchi dillad dychwelyd mewn 24 awr.
- Gwasanaeth glanhau esgidiau yn cael ei hysbysebu ac ar gael.
- Gwasanaeth concierge llawn yn cael ei ddarparu pan fo'n briodol i'r farchnad. Gallai hynny amrywio yn dibynnol ar leoliad a steil y gwesty, ond gall gynnwys rhai o'r canlynol neu'r cyfan: archebu tocynnau theatrau, teithiau ymweld, archebu tacsîs, parcio valet, teithiau a cheisiadau eraill.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparu cloc larwm sy'n dirgrynu ar gyfer gwesteion â nam ar y clyw.
- Darparu gwybodaeth am y gwesty mewn amrywiaeth o fformatau e.e. Print bras, Braille, lluniau, lawrlwythiadau MP3 a disgrifiadau sain ar wefannau.

Arferion Da Cynaliadwyedd

- Mae darparu papur newydd am ddim i bob ystafell wrth y drws yn arferiad cyffredin, a dylid gofyn yn benodol i'r gwesteion a fyddent yn hoffi cael un neu beidio er mwyn osgoi gwastraff.
- Gwnewch y defnydd gorau o wybodaeth leol i ymwelwyr yn llenyddiaeth hyrwyddo'r gwesty, ar y wefan a'r wybodaeth i ymwelwyr yn yr ystafelloedd gwely.
- Gallai gwybodaeth gynnwys, er enghraifft, hyrwyddo atyniadau treftadaeth naturiol a diwylliannol yn yr ardal, arbenigedd lleol megis bwyd a diod a'r celfyddydau a chrefftau, cyfleoedd i gerdded a seiclo a chynghor ar gludiant cyhoeddus.

- Os yw'r busnes yn cefnogi unrhyw elusennau lleol neu'n cymryd rhan mewn rhaglen rhodd ymwelwyr, gellir hyrwyddo hynny hefyd mewn mannau perthnasol.

2.3 Gwybodaeth am Fwyta

2.3.1 Cyffredinol

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Hysbysu'r gwesteion pan maent yn archebu os na fydd cinio ar gael.
- Darperir ar gyfer amrywiaeth o ofynion dietegol.
- Pan fo cinio yn cael ei weini mewn bwyty sydd ar wahân i'r gwesty neu a gontractir yn allanol, mae'n rhaid hysbysu'r gwesteion am hynny ar adeg archebu.
- Mae yna gyfleuster ar gael sy'n galluogi i'r gwesteion dalu am eu bwyd a'u diod drwy eu cyfrif gwesty.
- Byrddau unigol ar gael ar gyfer pob gwystai neu barti.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pum Seren

- O leiaf un tŷ bwyta yn agored i breswylwyr ar gyfer yr holl brydau bwyd yn ystod oriau agor y gwesty.
- Dylai byrddau yn y tŷ bwyta gael digon o le o'u cwmpas er mwyn caniatáu lefel uchel o breifatrwydd a lle i symud.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Ceisiwch fod yn hyblyg ynghylch amseroedd bwyta er mwyn helpu i bobl ddiabetig reoli eu siwgr gwaed.
- Sicrhewch fod byrddau yn sefydlog ac yn gallu cynnal pwysau pobl sy'n codi o'u cadeiriau.
- Sicrhewch fod y llestri yn cyferbynnu â'r lliain bwrdd neu wyneb y bwrdd er mwyn cynorthwyo gwesteion â nam ar y golwg.
- Mae byrddau bwyta yn ddigon uchel neu wedi eu dylunio mewn ffordd sy'n golygu bod mynediad â chadair olwyn yn hawdd.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Gall ceginau mewn gwystai ddefnyddio llawer iawn o ynni, a dyma un o'r ardaloedd sydd hefyd yn cynhyrchu'r swm mwyaf o wastraff. Gall rheoli ynni yn effeithiol yn y gegin arwain at arbedion sylweddol a gwell amodau gwaith i'r staff.
- Gall cynllun a gosodiad cegin priodol, yn ogystal â chynnal a chadw a glanhau offer yn rheolaidd gynyddu effeithlonrwydd ynni a lleihau costau.
- Gall codi ymwybyddiaeth ymysg staff y gegin a darparu hyfforddiant ar ddefnyddio offer, effeithlonrwydd ynni a dŵr, yn ogystal â rheoli gwastraff, arwain at arbedion sylweddol yn gyffredinol.
- Gweithiwch gyda'ch cyflenwyr er mwyn lleihau gwastraff bwyd ac optimeiddio pecynnau, megis defnyddio pecynnau y gellir eu dychwelyd.
- Yn ôl y gyfraith ni ddylech gael gwared ag olew coginio gyda gweddill eich gwastraff arlwygo neu i lawr draeniau dŵr budr. Dylech gasglu yr olew coginio sydd wedi ei ddefnyddio mewn cynwysyddion addas sydd wedi eu selio'n gyfan gwbl a'u storio'n ddiogel. Mae'r rhaid i chi gael gwared â'r holl olew coginio drwy ddefnyddio gwasanaeth cariwr gwastraff awdurdodedig, ac mae nifer ohonynt yn cynnig gwasanaeth am ddim.

2.3.2 Staff Gwasanaeth Bwyd

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Digon o staff i sicrhau gwasanaeth prydlon pan weinir pob pryd bwyd.
- Staff chwrtais yn darparu gofal cwsmeriaid o safon dda.
- Staff yn arddangos gwybodaeth am y prydau bwyd a weinir.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Staff yn darparu gofal cwsmeriaid o safon dda ac yn dangos gwybodaeth dda iawn am gynnyrch bwyd, diod a gwin a sgiliau gweini.

Pedair Seren

- Staff anymwthiol a chwrtais yn darparu gofal cwsmeriaid o safon ragorol ac yn dangos gwybodaeth ragorol am gynnyrch bwyd, diod a gwin a sgiliau gweini.
- Staff yn dangos gwasanaeth rhagweithiol, yn rhagdybio gofynion y cwsmeriaid.

Pum Seren

- Staff anymwithiol a chwrtais yn darparu gofal cwsmeriaid o safon eithriadol. Staff proffesiynol a rhagweithiol sydd wedi eu hyfforddi'n dda iawn.
- Croeso wedi ei bersonoli, a gwsteion yn cael eu tywys at eu bwrdd ym mhob ardal ble mae bwyd a diod yn cael eu gweini.
- Staff yn dangos lefel eithriadol o wybodaeth am gynnyrch bwyd, diod a gwin a sgiliau gweini.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Cynigiwch ddewis i'r gwsteion o ran lleoliad i eistedd. Darparwch ddetholiad o gadeiriau sydd â breichiau neu heb freichiau.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Dylai staff sy'n delio â gwasanaeth bwyd a diod gael eu cyfarwyddo'n llawn ynghylch ffynhonnell, nodweddiad ac arwyddocâd cynhyrchion bwyd a diod lleol sy'n cael eu gweini.

2.4 Y Ddarpariaeth Brecwast

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Brecwast wedi ei goginio a/neu frecwast cyfandirol yn cael ei ddarparu.
- Amseroedd brecwast priodol ble mae yna angen penodol yn y farchnad e.e. gwestai mewn canol dinas, gwestai mewn meysydd awyr a gwestai gwledig.
- Pris brecwast yn cael ei arddangos pan mai dim ond opsiwn ystafell yn unig sydd ar gael.
- Pris unrhyw eitemau brecwast sydd â chost ychwanegol yn cael ei hysbysebu'n glir.
- Mae steil bwffe hunanwasanaeth yn dderbyniol. Fodd bynnag, dylid ailgyflenwi bwffes yn rheolaidd. Pan ddarperir bwffes, maent yn cael eu gosod a'u gweithredu mewn modd ymarferol sy'n gwsmer gyfeillgar.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Brecwast wedi ei goginio a brecwast cyfandirol yn cael ei ddarparu mewn ardal fwyta benodol yn yr adeilad ac yn cael ei hysbysebu felly.
- Diodydd poeth yn cael eu gweini wrth y bwrdd, ond mae'r opsiwn ychwanegol o ddefnyddio peiriannau diodydd o ansawdd uchel yn dderbyniol.

Pedair Seren

- Gwasanaeth bwrdd yn cael ei hysbysebu ac ar gael ar gais.

Pum Seren

- Gwasanaeth bwrdd yn cael ei gynnig yn rhagweithiol.
- Arferion Da o ran Hygyrchedd
- Cynnig cymorth i westeion gyda bwffes hunanwasanaeth pan fo'n briodol.
- Ceisiwch fod yn hyblyg ynghylch amseroedd bwyta er mwyn helpu i bobl ddiabetig reoli eu siwgr gwaed.

2.4.1 Bwydlen Brecwast ac Amrywiaeth o Fwydydd

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Mae bwydlen benodol yn dderbyniol.
- Dewis o eitemau poeth ac oer, yn cynnwys opsiynau llysieuol a gofynion dietegol eraill ac opsiynau iach.
- Mae eglurhad geiriol o'r bwydydd sydd ar gael yn dderbyniol.
- Y brecwast cyfandirol a gynigir i gynnwys o leiaf: sudd ffrwythau, grawnfwyd, iogwrt, coffi, te a thost. Brecwast wedi ei goginio i gynnwys o leiaf tair eitem boeth e.e. : bacwn, wyau, selsig, madarch, ffa pob a choffi, te a thost.

Dwy Seren

- Bwydlen lân wedi ei chyflwyno'n dda ar gyfer brecwast a weinir o'r gegin.

Tair Seren

- Amrywiaeth dda o eitemau poeth ac oer, yn ogystal â dewis da o gyfwydydd o safon dda. Mae enghreifftiau yn cynnwys cyffeithiau, coffi mâl a choffi heb gaffin, te, menyn a thaeniadau.
- Gwsteion yn cael dewis sut maent eisiau eu wyau wedi eu coginio, a hynny'n cynnwys wyau wedi eu ffrio, potsio, berwi neu sgramblo.

Pedair Seren

- Bwydlen yn cael ei darparu sy'n nodi'r holl amrywiaeth sydd ar gael i frecwast.
- Amrywiaeth o eitemau poeth ac oer o safon uwch.

Pum Seren

- Bwydlen yn cael ei darparu, sydd wedi ei chyflwyno yn ôl y safonau uchaf ac sy'n nodi'r holl amrywiaeth sydd ar gael i frecwast.
- Amrywiaeth cynhwysfawr o brydau bwyd

poeth ac oer o ansawdd rhagorol. Gall enghreifftiau gynnwys sudd ffres, amrywiaeth o ffrwythau ffres tymhorol aeddfed, cigoedd oer a chawsiau, wyau buarth, bwydydd lleol arbennig, pysgod ffres, amrywiaeth o eitemau bara a thoes, cynnyrch dietegol arbennig ac amrywiaeth cynhwysfawr o eitemau poeth apelgar.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparu bwydlen print bras (lleiafswm maint ffont o 16) mewn ffont clir megis Arial.
- Darparu ar gyfer gwahanol ofynion dietegol e.e. heb gynnyrch llaeth, gwenith, lactos a chnau.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Pan fo'n bosibl, caffael cynhyrchion bwyd a diod yn lleol. Meithrin perthynas â chynhyrchwyr a masnachwyr lleol.
- Gall bwydlenni sy'n amlygu bwydydd lleol arbennig helpu i wneud yr hyn yr ydych yn ei gynnig fod yn wahanol i'r hyn a gynigir gan gystadleuwyr. Ymgorfforwch ddisgrifiad byr o ble y daw'r cynhwysion, pwy yw'r cynhyrchydd a pham eich bod wedi eu dewis.
- Dylai staff sy'n delio â gwasanaeth bwyd a diod gael eu cyfarwyddo'n llawn ynghylch ffynhonnell, nodweddion ac arwyddocâd cynhyrchion bwyd a diod lleol.
- Cynlluniwch faint dognau yn ofalus er mwyn lleihau gwastraff, yn arbennig os ydych yn cynnig bwffe. Rhowch opsiynau i'r gwesteion ynghylch faint o fwyd maent ei eisiau a phryd. Er enghraifft, wrth weini brechwast, gallwch osgoi gwastraffu bara drwy ofyn a yw'r gwesteion eisiau tost neu beidio, ac os ydynt eisiau, holwch faint a pha bryd.
- Pan na ellir ei osgoi, dylid gwahanu gwastraff bwyd oddi wrth wastraff arall, boed hynny ar gyfer ei gasglu neu ei gompostio ar y safle.

2.5 Darpariaeth Cinio

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Cinio yn cael ei weini ar adegau penodol yn ôl yr angen yn y farchnad, a hynny'n cael ei hysbysebu'n glir.
- Pan na ddarperir cinio, mae'n rhaid cyfathrebu hynny'n glir i'r gwesteion. Dylai'r gwesty ddarparu mwy o wybodaeth ynghylch opsiynau gwahanol.
- Mae opsiwn hunanwasanaeth e.e. carferi neu fwffe yn dderbyniol.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pum Seren

- Pob cwrs yn cael ei weini i'r gwesteion ar y bwrdd.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Cynnig cymorth i westeion gyda bwffes hunanwasanaeth pan fo'n briodol.
- Ceisiwch fod yn hyblyg ynghylch amseroedd bwyta er mwyn helpu i bobl ddiabetig reoli eu siwgr gwaed.

2.5.1 Bwydlen Cinio ac Amrywiaeth o Fwydydd

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Mae'n derbyniol cynnig disgrifiad llafar o'r bwydydd sydd ar gael.
- Bwydlen benodol ar gael, gall hynny gynnwys dewis cyfyngedig.
- Mwy nag un cwrs ar gael. Dylai'r prif gwrs fod yn bryd poeth sylweddol.
- Bwydlenni derbyniol, glân, wedi eu cyflwyno'n dda, gyda disgrifiadau cywir. Fodd bynnag, mae'n derbyniol cynnig disgrifiad llafar o'r bwydydd sydd ar gael.
- Dylai pris y cinio gael ei arddangos os nad yw pris y llety yn cynnwys cinio.
- Pris unrhyw ordaliad am bryd penodol wedi ei hysbysebu'n glir.
- Costau ychwanegol, megis TAW, gwasanaeth a chost cyflenwi, yn cael eu nodi'n glir ar y bwydlenni.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Dewis o brydau bwyd poeth ac oer sylweddol.
- Bwydlenni ysgrifenedig o ansawdd da a phrisiau wedi eu nodi'n glir.

Pedair Seren

- Fel tair seren.

Pum Seren

- Dewis helaeth o fwydydd.

- Amrywiaeth eang o brydau bwyd o safon eithriadol.
- Bwydlenni wedi eu cyflwyno'n ddilychwin.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparu bwydlen print bras (lleiafswm maint ffont o 16) mewn ffont clir megis Arial.
- Darparu ar gyfer gwahanol ofynion dietegol e.e. heb gynnyrch llaeth, gwenith, lactos a chnau.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Pan fo'n bosibl, caffael cynhyrchion bwyd a diod yn lleol. Meithrin perthynas â chynhyrchwyr a masnachwyr lleol.
- Gall bwydlenni sy'n amlygu bwydydd lleol arbennig helpu i wneud yr hyn yr ydych yn ei gynnig fod yn wahanol i'r hyn a gynnigir gan gystadleuwyr. Ymgorfforwch ddisgrifiad byr o ble y daw'r cynhwysion, pwy yw'r cynhyrchydd a pham eich bod wedi eu dewis.
- Dylai staff sy'n delio â gwasanaeth bwyd a diod gael eu cyfarwyddo'n llawn ynghylch ffynhonnell, nodweddion ac arwyddocâd cynhyrchion bwyd a diod lleol.
- Cynlluniwch feintiau dogneau yn ofalus a chynnig opsiynau i'r gwesteion o ran maint dogneau er mwyn osgoi gwastraffu bwyd. Pan na ellir ei osgoi, dylid gwahanu gwastraff bwyd oddi wrth wastraff arall.
- Gallech gynnig i'r gwesteion fynd â gweddillion i ffwrdd gyda nhw mewn cynhwysydd i fynd adref. Argymhellir cynnwys cyfarwyddiadau penodol ar ailgynhesu bwyd yn briodol, a hysbysu gwesteion mai cyfrifoldeb y cwsmer yn unig yw'r bwyd ar ôl iddo gael ei gario oddi ar y safle.
- Dylech osgoi gweini dŵr potel (mewn poteli y gellir eu waredu) fel arferiad. Yn hytrach, dylech weini dŵr tap arferol, neu wedi ei hidlo, mewn jygiau neu boteli y gellir eu hailddefnyddio, er mwyn lleihau cludiant a gwastraff pecynnu. Mae oeryddion dŵr, sydd yn cael eu plymio i'r cyflenwad dŵr, ar gael hefyd, ac maent yn addas ar gyfer eu defnyddio mewn ardaloedd cynadledda a digwyddiadau ac yng nghefn y tŷ ar gyfer defnydd staff.

2.5.2 Gweini Diod Gadarn/Trwyddedau/Gwasanaethau Gwin

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Trwydded gwirodydd preswyl cyfredol neu gyfatebol.
- Fel sy'n gymwys o dan ddeddfau trwyddedu Cymru.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Staff yn arddangos gwybodaeth dda iawn o ddiodydd, yn cynnwys gwinoedd a gwirodydd.

Pedair Seren

- Amrywiaeth o ddiodydd o safon uwch yn cael eu cynnig.
- Rhestr winoedd fanwl a llawn gwybodaeth.

Pum Seren

- Amrywiaeth ragorol o ddiodydd o safon yn cael eu cynnig.
- Staff yn arddangos gwybodaeth eithriadol am ddiodydd a sgiliau gweini. Yn debygol o gynnwys tîm gwinoedd penodol (sommelier).

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Pan fo'n bosibl, dylech gaffael cynhyrchion diod (gadarn a meddal) yn lleol neu'n rhanbarthol ac amlygu hynny yn eich bwydlen.
- Dylai staff sy'n delio â gwasanaeth bwyd a diod gael eu cyfarwyddo'n llawn ynghylch ffynhonnell, nodweddion ac arwyddocâd cynhyrchion bwyd a diod lleol.

2.5.3 Lluniaeth Ysgafn, Byrbrydau, Cinio a The Prynawn

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Diodydd poeth ac oer ar gael i breswylwyr a'u gwesteion yn yr ardaloedd cyhoeddus yn ystod y dydd a gyda'r nos. Efallai y bydd yn ofynnol i westeion archebu yn y dderbynfa neu wrth y bar. Gall yr opsiwn o ddefnyddio peiriannau gwerthu yn yr ardaloedd cyhoeddus fod yn dderbyniol. (Nid yw cyfeirio gwesteion at gyfleusterau yn yr ystafelloedd yn dderbyniol).

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Lluniaeth ysgafn sy'n cynnwys o leiaf diodydd poeth ac oer a brechdanau ar gael i breswylwyr a'u gwesteion yn yr ardaloedd cyhoeddus yn ystod amseroedd gwasanaethu. Dylai'r gwasanaeth hwn gael ei hysbysebu'n glir.

Pedair Seren

- Lluniaeth ysgafn a byrbrydau poeth ac oer ar gael i breswylwyr a'u gwesteion yn yr ardaloedd cyhoeddus yn ystod amseroedd gwasanaethu.
- Mae'r gwesteion yn gallu archebu wrth y bwrdd a'u gweini wrth y bwrdd.

Pum Seren

- Te prynhawn llawn ar gael ble mae angen yn y farchnad.
- Mae brasserie/bistro/bar o safon uwch yn dderbyniol ar gyfer amser cinio, cyn belled â bod gwesteion yn gallu bwyta'n gyfforddus ac archebu wrth y bwrdd a'u gweini wrth y bwrdd.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Pa fo'n bosibl a phriodol, dylid defnyddio cynhyrchion Masnach Deg, er enghraifft te, coffi, siocled a siwgr. Sicrhewch eich bod yn hyrwyddo hynny i gwsmeriaid ar fwydlenni.

2.5.4 Darpariaeth Gwasanaeth Ystafell

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Dewisol ac eithrio yn achos salwch.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Dylai gwasanaeth ystafell gael ei ddarparu a'i gyflenwi i'r ystafelloedd gwely ble mae angen yn y farchnad yn ystod oriau gweini (yn cynnwys brecwast a chinio).

Pum Seren

- Gwasanaeth ystafell 24 awr yn cynnwys byrbrydau a diodydd poeth ac oer a diodydd cadarn.
- Mae'r gwesteion yn gallu dewis o'r fwydlen cinio llawn yn ystod oriau agor y tŷ bwyta.
- Ar gyfer brecwast, dewis o brydau bwyd poeth ac oer sylweddol.

- Mae maint a gosodiad yr ystafelloedd, a'r dull o gyflenwi yn sicrhau profiad bwyta o'r safon uchaf i'r gwesteion.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparwch brydau bwyd (ar gais) pan fo'n briodol e.e. i westeion anabl.

2.6 Ystafelloedd Gwely

2.6.1 Darpariaeth Ystafelloedd Gwely

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren) Pob Gradd

- Lleiafswm o bum ystafell wely i'w gosod.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pum Seren

- Gofynion sylfaenol.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Ceisiwch ddarparu ystafell wely ar y llawr isaf.

2.6.2 Maint ac Ehangder

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren) Pob Gradd

- Dylai pob ystafell wely fod yn ddigon mawr i westeion allu symud yn rhwydd o gwmpas yr ystafell.
- Pan ydym yn asesu maint ystafell wely, rydym yn ystyried y gofod defnyddiadwy sydd ar gael o gwmpas dodrefn a'r gosodiadau.
- Dylai fod yn bosibl agor drysau a droriau yn llawn heb orfod symud celfi eraill.
- Mae angen i ystafelloedd ar gyfer teuluoedd fod yn sylweddol fwy.
- Defnydd hawdd a chyfleus o gyfleusterau e.e. defnydd o wynebaw heb orfod symud yr hambwrdd te neu'r teledu, mynediad i plygiau trydan ayyb.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Pob ystafell wely â gofod rhydd da.

Pedair Seren

- Pob ystafell wely â mwy o ehangder, sy'n galluogi i westeion ei defnyddio yn rhwydd iawn, ac yn llawer mwy na'r gofynion mynediad sylfaenol.

Pum Seren

- Mae'r mwyafrif helaeth o'r ystafelloedd gwely yn fawr iawn, sy'n galluogi i'r gwesteion eu defnyddio'n rhwydd iawn ar gyfer symud, cyfforddusrwydd, bwyta ac ymlacio.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Pan ofynnir am hynny, dylid addasu gosodiad dodrefn yr ystafell wely. Mae hynny'n gwella hygyrchedd a defnyddioldeb yr ystafell wely.

2.6.3 Swïts

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Ddim yn ofynnol.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pum Seren

- Lleiafswm o un swît foethus/ystafell foethus o safon uwch ar gael yn barhaus. Noder. Mae swît yn cynnwys o leiaf tair ystafell ar wahân
 - ystafell wely, ystafell ymolchi ac ystafell eistedd, a drws ym mhob un.

2.6.4 Maint Gwelyau a Mynediad

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Lleiafswm maint gwelyau, yn cynnwys gwelyau soffâ a bynciau, fel a ganlyn:
Sengl: 190cm x 90cm/6tr 3mod x 3tr
Dwbl: 190cm x 137cm/6tr 3mod x 4tr 6mod (gwelyau 122cm/4tr i gael eu dynodi fel rhai sengl).
- Nid yw gwelyau 76cm/2tr 6mod yn dderbyniol, ac eithrio mewn ystafelloedd teuluoedd ble maent yn amlwg ar gyfer plant yn unig.

- Nid yw gwelyau soffâ yn dderbyniol fel gwelyau parhaol.
- Mae gwelyau bync (gwelyau parhaol) yn dderbyniol ar gyfer defnydd plant yn unig. Pan ddefnyddir gwelyau bync, mae'n rhaid hysbysu gwesteion am hynny pan fyddant yn archebu. Noder. Dylai gwelyau bync gael lleiafswm o 75cm/30mod o ofod clir rhwng matres y gwely isaf ac ochr isaf y gwely uchaf. (Rheoliadau gwelyau bync 1997).
- Pob gwely yn cynnwys gwelyau ategol (megis gwelyau z, gwelyau soffâ ayyb) i fod o ansawdd dderbyniol ac mewn cyflwr da. Dylent gael corff cadarn a matres â sbrings mewnol, neu ddeunydd o ansawdd tebyg, sy'n fodern a chyfforddus.
- Pen gwely neu debyg ar bob gwely parhaol.
- Mynediad i'r ddwy ochr i'r gwely ar gyfer meddiannaeth dwbl.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Holl welyau plant i fod yn rhai maint oedolion llawn. Sengl: 190cm x 90cm/6tr 3mod x 3tr.
- Gwelyau soffâ yn bodloni gofynion maint gwelyau ar gyfer gwelyau parhaol.

Pedair Seren

- Dewis o welyau mwy.

Pum Seren

- Nid yw gwelyau bync yn dderbyniol.
- Dylai gwelyau ar gyfer meddiannaeth sengl fod yn fwy na 90cm (3tr) mewn lled.
- Dylai gwelyau ar gyfer meddiannaeth dwbl fod yn fwy na 153cm (5tr) mewn lled.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparwch welyau sip a chysylltu fel y gall gwestai a phartner, neu westai a gofalwr, ddefnyddio'r ystafell, yn arbennig mewn ystafelloedd hygyrch.
- Darparwch flociau fel y gellir addasu uchder gwelyau.

2.6.5 Gofynion Dillad Gwely

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Digon o ddillad gwely a lleiniau yn cael eu darparu, sy'n addas ar gyfer y tymor. Mwy o ddillad gwely ar gael ar gais.
- Digon o lieiniau yn cael eu darparu i bob gwestai.

- Yr holl welyau yn cael eu cymhennu'n ddyddiol. Dillad gwely yn cael eu newid o leiaf unwaith bob wythnos ac ar gyfer pob gwestai newydd.
- Pan ddefnyddir duvet neu obennydd plu, dylai dewis analergenig fod ar gael ar gais.
- Gwarchodwr matres yn cael ei ddarparu ar gyfer pob gwely. Nid yw gwarchodwyr gwelyau plastig neu rwber yn dderbyniol ar eithrio ar gyfer gwelyau plant.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pum Seren

- Gofynion sylfaenol.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparu dillad gwelyau hypoalergenig.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Nid oes rhaid lapio dillad gwelyau dros ben mewn bagiau plastig; gellir eu gosod mewn bag cotwm neu ffabrig y gellir ei aildefnyddio.
- Mae'n dderbyniol cael un set o obennydd ar y gwely yn unig, a set arall ar gael yn yr ystafell wely i'r gwesteion eu defnyddio e.e. yn y cwpwrdd dillad. Gall hynny leihau faint o ddillad gwely sydd angen eu golchi ac amser y staff ar gyfer newid dillad gwelyau.
- Mae'n gyffredin i westai sefydlu polisi tyweli a llieiniau, fel y gall gwesteion gytuno â'u newid yn llai aml. Gallai hynny leihau'r defnydd o ynni, dŵr, a glanedyddion, a chostau o ganlyniad i hynny, yn ogystal â'r effaith ar yr amgylchedd.
- Mae'n bwysig hyfforddi staff ynglŷn â'r polisi tyweli a llieiniau a sicrhau eu bod yn cadw at ddewis y gwesteion i'w haildefnyddio. Mae newid tyweli beth bynnag fo dewis y gwestai yn debygol o roi'r neges anghywir a lleihau cefnogaeth y gwestai i weithgareddau cynaliadwyedd eraill y busnes.

2.6.6 Rheoli Gwres a Thymheredd

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Systemau gwresogi wedi eu darparu y gellir

- eu rheoli (ymlaen/diffodd) gan y gwesteion.
- Gwresogi ategol yn cael ei ddarparu mewn ystafelloedd ar gais pan nad yw'r gwesteion yn gallu rheoli'r lefelau gwresogi e.e. rhai systemau gwres canolog.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gwresogi thermostatig a reolir yn unigol.

Pedair Seren

- Gwresogi thermostatig a reolir yn unigol yn weithredol 24 awr y dydd.

Pum Seren

- Gwresogi thermostatig a reolir yn unigol yn weithredol 24 awr y dydd.
- Tymheru aer, awyru mecanyddol neu ddull o oeri'r ystafell ag awyr iach nad yw'n caniatáu sŵn na llygryddion i'r ystafell.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Gall gwresogi gyfateb i dros 40% o'r ynni a ddefnyddir mewn adeilad mawr megis gwesty.
- Mae yna amrywiaeth o reolyddion gwresogi ar gael megis amseryddion, thermostatau, a rheolyddion parthau. Mae rheolyddion da nid yn unig yn arbed ynni, ond maent hefyd yn cynnal amgylchedd sy'n gyson o gyfforddus ar gyfer y gwestion a'r staff, ac yn lleihau costau cynnal a chadw offer.
- Dylai staff gael eu hyfforddi ar sut mae gweithredu rheolyddion gwresogi. Fel rhan o'r weithdrefn gadw tŷ, dylid sicrhau bod y gwres ar lefel gyfforddus (19-21°C) ac y gellir ei addasu pan fo angen.
- Sicrhewch bod yna wybodaeth glir ar gael i westeion ynglŷn â sut mae gweithredu'r rheolyddion gwresogi.
- Gall swm sylweddol o wres ddianc drwy doeau a waliau sydd heb eu hinswleiddio, a gall hynny ychwanegu cannoedd o bunnau bob blwyddyn i'ch bil gwresogi. Mae inswleiddio gofod mewn toeau a waliau ceudod allanol gwag yn ffordd effeithiol a rhad o leihau'r gwres a gollir. Mae gwelliannau yn fwy effeithiol yn ystod prosiectau adnewyddu a dylid ystyried hynny bob amser pan fo'r cyfle'n bodoli.
- Mae yna alw mawr am wres a dŵr poeth mewn nifer o westai. Gellir gwneud arbedion ariannol ac arbedion carbon sylweddol drwy ddefnyddio tanwydd gwresogi mwy effeithlon – er enghraifft, newid o

olew neu LPG i fïomas'neu osod system thermol solar er mwyn cynhesu dŵr poeth a gwrthbwysô'r defnydd o danwydd. Mae yna amrywiaeth o gyngor arbenigol ar gael ar yr opsiynau mwyaf addas ar gyfer eich safle, ac unrhyw gymorth ariannol a gynigir megis benthyciadau di-log neu log isel a chymhelliannau eraill.

2.6.7 Goleuo

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Ystafelloedd gwely wedi'u goleuo'n dda.
- O leiaf un golau a reolir o'r drws.
- Golau darllen wrth ymyl y gwely ar gyfer pob person y gellir eu rheoli gan bob person, yn ychwanegol at y golau a reolir gan switsh ger y drws. Fodd bynnag, gall dau wely sengl rannu golau rhwng y gwelyau.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Golau wedi ei ddarparu'n benodol er mwyn goleuo desg ysgrifennu/bwrdd gwisgo.

Pedair Seren

- Goleuadau yn benodol ar gyfer ardal y cyntedd, y cwpwrdd dillad, yr ardal fwyta a man eistedd yn cyfforddus.
- Dau olau wrth y gwely mewn ystafell â dau wely sengl.
- Goleuadau'r ystafell y gellir eu rheoli o ymyl y gwely.

Pum Seren

- Amrywiaeth o opsiynau goleuo a reolir gan y gwestai.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Galluogwch y gwesteion i addasu lefelau goleuo gan ddefnyddio switsh pylu a/neu ddarparu mwy o lampau ymyl y gwely/bwrdd ysgrifennu.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Mae lampau ynni isel modern yn ddeniadol ac yn darparu allbwn goleuo da iawn. Yn y gwesty drwyddo draw dylid defnyddio mwy o fylbiau golau arbed ynni, megis rhai fflwroleuol cryno (CFL) ac LED, sydd yn defnyddio hyd at 80% yn llai o ynni, a gallant bara hyd at 50 gwaith yn hirach. Mae CFL yn cynhesu i'w disgleirdeb llawn yn eithaf cyflym

(llai na munud fel arfer), ond gallai hynny amrywio yn ddibynnol ar ansawdd y bwlw golau a'r tymheredd o'u cwmpas.

- Cofiwch bod angen storio goleuadau fflwroleuol, yn cynnwys lampau fflwroleuol cryno (CFL) yn ddiogel er mwyn sicrhau nad ydynt yn torri, a'u bod yn cael eu gwaredu ar wahân oherwydd eu bod yn wastraff arbennig. Yn aml bydd eich cyflenwr yn cymryd rhai hen yn eu hôl.
- Gellir defnyddio arwyddion er mwyn gofyn i westeion ddiffodd goleuadau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Mae rheolyddion sy'n gysylltiedig â meddiannaeth sy'n diffodd goleuadau ac offer trydanol arall yn opsiwn hefyd, megis systemau cardiau allwedd neu rai a reolir o ddesg y dderbynfa.
- Mae'n bolisi i baratoi ystafelloedd y gwesteion cyn iddynt gyrraedd drwy adael y goleuadau ymlaen, felly ystyriwch wneud hynny yn llawer hwyrach yn y dydd. Dylid defnyddio bylbiau arbed ynni, yn arbennig yn achos y rhai hynny sy'n cael eu gadael ymlaen.

2.6.8 Ffenestri a Gorchuddion Ffenestri

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren) Pob Gradd

- O leiaf un ffenestr y gellir ei hagor yn ddiogel er mwyn darparu lefelau da o olau naturiol ac awyriad. System tymheru aer neu awyru aer mecanyddol yn cael ei darparu pan na ellir agor ffenestri.
- Ffenestri wedi eu gosod yn dda, yn hawdd i'w agor a chau ac sy'n aros yn agored. Polyn yn cael ei ddarparu er mwyn agor unrhyw ffenestri Velux neu ffenestri to.
- Mae ystafelloedd heb ffenestri yn dderbyniol, ond mae'n rhaid iddynt gael system dymheru aer a phasio'r holl reoliadau adeiladu. Mae'n rhaid esbonio'n glir i'r gwestai cyn archebu pan nad oes ffenestri yn yr ystafell.
- Gosodiadau diogelwch ar holl ffenestri ystafelloedd gwely ble gellid cael mynediad o'r tu allan pan maent yn agored e.e. drysau patio a ffenestri ger diangfeydd tân.
- Mae'n dderbyniol i ystafell wely edrych dros atriwm mewnl mawr. Dylai system tymheru aer fod yn yr ystafell a dylai fod wedi ei goleuo'n naturiol.
- Llenni, bleindiau a chaeadau didraidd ar bob ffenestr yn cynnwys paneli gwydr mewn drysau, a ffenestri to a ffenestri linter fel bod gan westeion breifatrwydd a'u bod yn gallu rhwystro unrhyw olau o du allan i'r ystafell. Holl orchuddion ffenestri i gael eu gosod neu eu hongian yn briodol.

- Dylai llenni fod yn gymharol sylweddol – gyda neu heb leinin. Llenni sy'n ddigon mawr i'w tynnu'n hawdd ac yn gyfan gwbl ar draws lled ac uchder y ffenestr.
- Preifatrwydd ychwanegol yn cael ei ddarparu mewn ystafelloedd gwely ar y llawr isaf drwy ddefnyddio llen rwyd neu fleind.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pum Seren

- Gofynion sylfaenol.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Sicrhewch y gall eich gwesteion gyrraedd ffenestri a llenni a'u bod yn hawdd i'w hagor a'u cau.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Gall adeilad arferol golli cymaint â 26% o'i wres drwy'r ffenestri. Bydd sicrhau bod ffenestri yn ddi-ddrafft nid yn unig yn arbed ynni, ond hefyd yn wella cyfforddusrwydd y gwesteion.
- Gall cau llenni, bleindiau neu gaeadau ar ddiwedd y dydd yn ystod misoedd y gaeaf leihau drafftiau a chadw mwy o wres. Gallai hynny fod yn rhan o'r gwasanaeth troi i lawr, os darperir hynny.
- Gall leinin thermol neu leinin tywyllu ar lenni wella cyfforddusrwydd gwesteion a lleihau faint o wres a gollir.
- Erbyn hyn mae ffenestri dwbl yn ofyniad sylfaenol o dan y rheoliadau adeiladu wrth osod ffenestri newydd. Mae ffenestri dwbl a threbl effeithlon iawn ar gael. Er na fydd ffenestri dwbl neu drebl safonol yn briodol ym mhob achos, fel arfer bydd yna rywbeth y gellir ei wneud i wella perfformiad thermol y ffenestri, hyd yn oed mewn adeiladau traddodiadol.

2.6.9 Lloriau

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Yr holl loriau, carpedi, matiau, lloriau coed caled ayyb wedi eu gosod yn briodol ac o ansawdd dderbyniol ac mewn cyflwr derbyniol.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pum Seren

- Gofynion sylfaenol.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Dylech osgoi carpedi peil dwfn allai achosi baglu neu ei gwneud yn anodd i gadair olwyn symud.

2.6.10 Dodrefn – Byrddau, Drychau a Storio Dillad

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Bwrdd ysgrifennu neu gyffelyb megis wyneb gwastad sylweddol neu ddesg sy'n rhoi digon o ofod rhydd ar gyfer defnydd ymarferol gyda drych cyfagos.
- Goleuo sy'n ddigonol ar gyfer defnydd. Socedi pŵer wedi eu lleoli'n gyfleus ar uchder y ddesg.
- Bwrdd ymyl gwely neu gyffelyb ar gyfer pob person. Gall dau wely sengl rannu bwrdd ymyl gwely.
- Cwpwrdd dillad neu ofod hongian dillad.
- Digon o gambrenni o safon dda (dim rhai weiren).
- O leiaf un drych yn yr ystafell wely, un maint llawn yn ddelfrydol, sy'n agos i socedi trydan a/neu sychwr gwallt.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Man penodol ar gyfer dadbacio bagiau.
- O leiaf dau ddrych yn yr ystafell wely, ac mae'n rhaid i un ohonynt fod yn un maint llawn ac un yn ardal y bwrdd gwisgo.

Pedair Seren

- Fel tair seren.

Pum Seren

- Cwpwrdd dillad llawn gosodedig, neu gwpwrdd dillad unigol. Noder, nid yw alcofau agored yn dderbyniol.
- Lle helaeth i storio dillad.
- Amrywiaeth eang o gambrenni o safon ar gael.

- Mae goleuadau y tu mewn i'r cwprdd dillad yn ddisgwyliedig.
- Bwrdd ysgrifennu sylweddol gyda gofod rhydd rhagorol.

2.6.11 Dodrefn – Seddi

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Sengl/Dwbl/Twin – un gadair neu stôl i'w darparu gydag elfen o gyfforddusrwydd.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Sengl/Dwbl/Twin – un gadair esmwyth. Pan mai honno yw'r unig gadair, ystyriaeth yn cael ei roi i ba mor hawdd yw ei defnyddio wrth y bwrdd gwisgo/ysgrifennu, neu ddarparu cadair arall.

Pedair Seren

- Dwbl/Twin – un gadair esmwyth sylweddol a chadair arall wrth y ddesg ysgrifennu.

Pum Seren

- Sengl – un gadair esmwyth sylweddol a chadair arall sy'n gyfforddus i'w defnyddio wrth y bwrdd gwisgo/ysgrifennu.
- Dwbl/Twin – dwy gadair esmwyth sylweddol a chadair arall sy'n gyfforddus i'w defnyddio wrth y bwrdd gwisgo/ysgrifennu.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Mae gan o leiaf un o gadeiriau'r ystafell wely gefn uchel a breichiau.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Pan fyddwch yn adnewyddu unrhyw ddodrefn, celfi neu ffitiadau, ystyriwch eu rhoi i elusennau lleol, grwpiau cymunedol neu sefydliadau perthnasol eraill fel y gellir eu haildefnyddio.
- Pan fyddwch yn prynu dodrefn newydd, ystyriwch bren solid y gellir ei adnewyddu'n haws yn y dyfodol yn hytrach na chyfansoddiâu.

2.6.12 Cyfleusterau Gwneud Diodydd

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Cyfleusterau gwneud te a choffi ar gael ac yn hygyrch 24 awr y dydd naill ai mewn ystafelloedd gwely neu mewn mannau

cyhoeddus (Mae opsiynau hunanwasanaeth/peiriannau gwerthu yn dderbyniol mewn ardaloedd cyhoeddus).

- Pan mai dim ond gwasanaeth ystafell a ddarperir, dylid hysbysu'r gwsteion am argaeledd hambwrdd lletygarwch am ddim.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Amrywiaeth ehangach o ddiodydd a byrbrydau poeth yn debygol o gael eu darparu e.e. dewis o de, bisgedi a diodydd eraill megis siocled poeth.
- Cyfleusterau gwneud te/coffi ar gael yn yr ystafell.

Pedair Seren

- Fel tair seren.

Pum Seren

- Cyfleusterau yn yr ystafell, pan y'u darperir, o safon ragorol e.e. llestri tseiina, tebot, dewis o ddiodydd poeth yn cynnwys amrywiaeth o de arbenigol, llaeth ffres a choffi mât ffres.
- Gall hynny gynnwys peiriannau coffi pwrpasol yn yr ystafell.

Arferion Gorau

- Cynhwysion hunanwasanaeth ar gyfer gwneud diodydd poeth wedi eu lapio neu eu cadw mewn cynwysyddion â chaead.
- Llaeth ffres ar gael ar gais.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Sicrhewch bod hambyrddau lletygarwch ar uchder sy'n hygyrch i bob gwestai. Dylai tegelli fod yn rhai diwifr, a dylid darparu amrywiaeth o gwpanau/mygiau yfed, neu dylent fod ar gael ar gais.
- Dylai tegelli maint teithio fod ar gael.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Yn achos eitemau ar hambyrddau lletygarwch, gellid defnyddio nwyddau a gynhyrchir yn lleol, neu gynhyrchion Masnach Deg (e.e. te, coffi, siwgr, siocled poeth).
- Gall darparu tegelli llai mewn ystafelloedd gwely, ar gyfer 1-2 gwpan, leihau'r ynni a ddefnyddir ac mae'n annog y gwsteion i ferwi'r dŵr sydd ei angen yn unig.

2.6.13 Gwybodaeth yn yr Ystafell

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Gwasanaethau a chyfleusterau'r gwesty wedi eu hysbysebu yn yr holl ystafelloedd gwely, o bosibl mewn ffolder o wybodaeth yn yr ystafell, neu drwy dechnoleg yn yr ystafell. Dylai hynny gynnwys y canlynol pan fo hynny'n gymwys:
- Sut mae galw am gymorth mewn achos brys yn ystod y nos.
- Cyfarwyddiadau amlieithog neu ddiagram ar gyfer gwacau yn ystod tân. Ystyriaeth yn cael ei roi i ddarparu deunyddiau gwybodaeth amlieithog pan fo hynny'n berthnasol i'r cwsmeriaid.
- Amseroedd bwyta a bwydlenni yn cynnwys bwydlen gwasanaeth ystafell pan fo hynny'n cael ei ddarparu.
- Manylion cysylltu â'r Wi-Fi.
- Gwybodaeth leol i ymwelwyr neu gyfeiriad at ble mae hynny ar gael yn y sefydliad yn gynnwysedig yn y wybodaeth a geir yn yr ystafell.
- Sut mae defnyddio'r teledu, radio a thechnoleg arall yn yr ystafell.
- Argaeledd haearn a bwrdd smwddio yn cael ei hysbysebu (os nad ydynt yn cael eu darparu yn yr ystafell beth bynnag).
- Pan fo Apiau ar gael ar gyfer elfennau gwasanaeth megis archebu papur newydd neu eitemau ychwanegol, megis gwasanaeth ystafell, neu archebu triniaeth sba, dylid rhoi manylion llawn wrth gofrestru a dylai gwybodaeth fod ar gael fel rhan o'r wybodaeth a geir yn yr ystafell.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Cyfeiriadur gwesteion mwy cynhwysfawr.
- Pan fo technoleg yn caniatáu, mae'r cyfeiriadur gwesteion yn debygol o gael ei ddangos ar deledu'r ystafell neu dyfais symudol (h.y. tabled), a hynny'n cynnwys enghreifftiau o'r atyniadau lleol i ymwelwyr, tai bwyta lleol a argymhellir a gwybodaeth am gludiant cyhoeddus.

Pum Seren

- Ystyriaeth yn cael ei roi i ddeunydd amlieithog a deunydd sydd wedi ei wella'n weledol.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Sicrhewch bod yr holl wybodaeth mewn print clir ac ar uchder sy'n hygyrch i bob gwestai. Ystyriwch ddarparu hysbysiadau ar ddrysau ar gyfer gwesteion sydd â nam ar y clyw fel rhan o'ch gweithdrefnau gwacau mewn argyfwng.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Gall cyfathrebu â gwesteion mewn ffordd glir a chadarnhaol yn y lle priodol fod yn allweddol o ran ymgysylltu â nhw a'u hannog i fwynhau'r hyn sydd gan y busnes a'r ardal leol i'w gynnig, ac i gefnogi gweithgareddau cynaliadwyedd y busnes.

Dylai pob ystafell gynnwys, pan fo'n bosibl, ffolder gwybodaeth i ymwelwyr sy'n gyfredol, allai gynnwys:

- Gwybodaeth am dreftadaeth a diwylliant lleol, yn cynnwys, manylion am atyniadau ymwelwyr cysylltiedig a digwyddiadau arbennig.
- Manylion am allfeydd cyfagos sy'n gwerthu bwyd, diod, crefftiau ac anrhegion lleol.
- Pan fo'n briodol, gwybodaeth am blanhigion cynhenid a bywyd gwylt y gall y gwesteion eu gweld yn yr eiddo neu yn yr ardal. Gellid darparu dyddiadur byd natur i westeion gofnodi unrhyw beth maent wedi ei weld.
- Opsiynau ar gyfer teithio heb gar megis llwybrau cerdded a seiclo, amserlenni cludiant cyhoeddus a rhifau cyswllt a gwefannau.
- Awgrymiadau o deithlenni ar gyfer dyddiau allan heb gar.
- Polisi amgylcheddol y gwesty, os oes gennych un, a manylion am unrhyw gynllun gwyrdd y mae'r gwesty yn gysylltiedig ag ef.
- Canllawiau i ymwelwyr cyfrifol, gyda chynghor da i'r ymwelwyr ar sut mae cyfranogi a lleihau eu heffaith.
- Os yw'r busnes yn rhan o gynllun rhodd ymwelwyr, dylai gwybodaeth am y cynllun yma fod yn gynnwysedig hefyd. Gellir cyfeirio hefyd at unrhyw waith mae'r busnes wedi ei wneud i gefnogi elusennau lleol neu brosiectau cymunedol.

2.6.14 Adloniant yn yr Ystafell

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Teledu digidol ar gael yn yr ystafelloedd gwely.

- Yr holl sianelau sydd ar gael wedi eu tiwnio yn briodol.
- Gellir gosod teledu mewn ystafell wely yn ddiogel ar fraced ar y wal. Ystyriaeth yn cael ei roi i rwyddineb gwyllo a diogelwch wrth leoli'r teledu.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Teclyn rheoli o bell yn cael ei ddarparu gyda'r teledu.
- Mae'r gwesteion yn gallu gwyllo'r teledu yn gyfforddus o'r gadair a'r gwely.

Pedair Seren

- Teledu â sgriniau helaeth – mwy na 61cm/24mod.

Pum Seren

- Disgwylir bod yr arloesedd diweddaraf o ran technolegau adloniant yn cael eu mabwysiadu.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Sicrhewch y gall y teledu ddarparu isdeitlau er budd i rai â nam ar y clyw a gwesteion sy'n siarad ieithoedd tramor.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Pan fo'n briodol, sicrhewch nad yw'r teledu ac offer adloniant eraill yn cael eu gadael yn y modd segur. Dylid defnyddio hysbysiadau er mwyn gofyn i'r gwesteion ddiffodd yr holl offer yn gyfan gwbl pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, yn hytrach na'u gadael yn y modd segur. Hefyd, gellid hyfforddi staff i ddiffodd offer adloniant yn gyfan gwbl pan maent yn glanhau'r ystafelloedd os bydd gwesteion wedi eu gadael yn y modd segur.
- Wrth brynu teledyddion newydd neu offer electronig arall, argymhellir yn gryf eich bod yn dewis y rhai mwyaf ynni effeithlon o blith yr opsiynau addas. Chwiliwch am y radd ynni arnynt.

2.6.15 Cysylltedd Cyffredinol a Ffonau

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Ffôn ystafell yn ddewisol.
- Pan nad ydynt yn cael eu darparu, mae'n rhaid darparu ffordd o gyfathrebu â staff mewn achos brys, a hynny'n cael ei hysbysebu yn yr ystafell wely.

- Pan ddarperir ffonau, maent yn arddangos rhif ffôn y gwesty a rhif estyniad neu rif ffôn yr ystafell.
- Pan ddarperir ffonau, maent yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut mae defnyddio unrhyw wasanaethau ychwanegol megis gwasanaeth negeseuon ffôn a galwadau o un ystafell i'r llall.
- Pan ddarperir ffonau, mae cerdyn costau yn cael ei arddangos yn yr ystafell sy'n dangos costau nodweddiadol galwadau lleol, pellter hir, rhyngwladol, rhyngrwyd, defnyddio cardiau ffôn a chysylltu â ffonau symudol. Mae sampl o gostau galwadau yn ofynnol.
- Hefyd, dylid egluro beth yw galwad leol a phellter hir, yn ogystal ag eglurhad o amseroedd brig ac allfrig.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Wi-Fi a/neu gysylltiad rhyngrwyd am ddim ar gael yn yr holl ystafelloedd gwely a'r ardaloedd cyhoeddus pan fo cysylltedd yn caniatáu hynny. Dylai ymdrechion pwrpasol i gryfhau unrhyw fannau gwan fod yn amlwg.

Pedair Seren

- Dylid darparu ffordd effeithiol o gyfathrebu'n fewnol.

Pum Seren

- Mae'r gwesteion yn gallu ffonio adrannau unigol y gwesty yn uniongyrchol.
- Band Eang Cyflym lawn ar gael i'r gwesteion, pan fo cysylltedd yn caniatáu.
- Technoleg gyfathrebu ragorol yn yr ystafell ynghyd â'r cysylltedd gorau sydd ar gael a chefnogaeth dda er mwyn datrys unrhyw broblemau.

Arferion Gorau

- Darparu pad ysgrifennu gyda beiro neu bensil.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparwch ffôn testun e.e. Minicom mewn o leiaf un ystafell wely, er budd gwesteion byddar.

2.6.16 Amrywiol

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Gwydr yfed i bob gwestai, mewn gwydr clir, neu blastig na ellir ei sgrifio.

- Socedi pŵer digonol wedi eu lleoli yn gyfleus sy'n caniatáu defnyddio'r holl offer trydanol a ddarperir yn ddiogel. Mae addaswyr pŵer yn dderbyniol, ond ni ddylid eu gorlwytho.
- Sychwr gwallt ym mhob ystafell.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Dylai socedi trydan hygyrch gynnwys socedi cyfandirol neu addaswyr, yn ogystal â socedi USB.
- Sychwr gwallt o safon uwch.

Pum Seren

- Cist yn yr ystafell neu gyfleuster ar gyfer storio pethau gwerthfawr.
- Gwasanaeth cadw tŷ gyda'r nos yn cael ei ddarparu a'i hysbysebu – o bosibl yn cynnwys rhai o'r gwasanaethau canlynol: gwasanaeth troi i lawr, gwagio biniau, tynnu llenni, tacluso tyweli, gwaredu hambyrddau gwasanaeth ystafell – pan fo angen yn y farchnad.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Dylid darparu opsiynau i westeion wahanu gwastraff y gellir ei ailgylchu (e.e. papur, gwydr, plastig, cardfwrdd, caniau). Gallai hynny fod yn gynhwysydd ychwanegol megis bin o liw gwahanol a/neu wedi ei labelu neu fag y gellir ei aildefnyddio. Os yw gofod yn gyfyngedig, gallai nodyn i hysbysu'r gwesteion i adael nwyddau y gellir eu hailgylchu wrth y bin fod yn briodol.
- Sicrhewch fod y staff wedi eu hyfforddi ynglŷn â sut mae gwahanu gwastraff yn briodol ar gyfer ailgylchu. Dylai'r troli gymhennu gael bagiau addas i'r staff eu defnyddio.
- Décor – gellid defnyddio gwaith artistiaid lleol, printiau a/neu ffotograffau a ddelweddau sy'n darlunio golygfeydd lleol a delweddau sy'n gysylltiedig â hanes a threftadaeth – mae'r cyfan yn ychwanegu at roi gwell naws am le i'r ymwelwyr.

2.7 Ystafelloedd Ymolchi, Ystafelloedd Cawod ac En-suites

2.7.1 Maint ac Ehangder

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren) Pob Gradd

- Dylai pob ystafell fod â digon o le i westeion eu defnyddio'n gyfforddus a rhwydd. Dylai gwesteion allu symud yn rhwydd o gwmpas yr ystafell.
- Pan ydym yn asesu maint ystafelloedd baddon, cawod a thoiledau, rydym yn ystyried y gofod defnyddiadwy sydd ar gael o gwmpas y dodrefn a'r gosodiadau. Yn achos gradd o safon uwch, disgwylir y bydd ystafelloedd yn cynnig mwy o ofod rhydd ynghyd â chyfarpar o faint mwy helaeth h.y. baddon, cawod a basn mwy.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pum Seren

- Gofynion sylfaenol.

2.7.2 Darpariaeth En-suite

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Dylai'r holl ystafelloedd gael ystafell baddon/cawod preifat neu en-suite.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Dylai'r holl ystafelloedd gael ystafell baddon/cawod en-suite. Dylai'r holl ystafelloedd en-suite gynnwys toiled a chawodydd a reolir â thermostat, naill ai ar wahân neu dros faddon.

Pedair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pum Seren

- Mae'n dderbyniol i 100% o'r ystafelloedd en-suite gael cawod yn unig os ydynt o faint ac ansawdd eithriadol.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Dylai bob cyflenwad dŵr poeth gael falf gymysgu ar bob gosodiad, wedi eu rheoli i beidio â mynd dros 41°C er mwyn osgoi llosgi.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Mae darpariaeth dŵr poeth yn hanfodol i westai ond gall arwain at golli ynni sylweddol. Mae'n bosibl arbed costau dŵr ac ynni drwy roi camau effeithlonrwydd rhad ar waith.
- Mae gorboethi dŵr yn wastraffus a gallai losgi staff a gwesteion. Y tymheredd delfrydol ar gyfer storio dŵr yw 60°C, sy'n ddigonol i ladd bacteria clefyd y lleng filwyr, ac mae'n ddigon cynnes i'r staff a gwesteion ei ddefnyddio. Gallwch adolygu, ac addasu'r thermostat ar eich tanc dŵr poeth pan fo angen.

2.7.3 Offer

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren) Pob Gradd

- Pob ystafell ymolchi neu ystafell gawod breifat ac en-suite yn cynnwys:
- Clo neu foltt mewnlol ar bob ystafell ymolchi neu gawod breifat (nid ar ystafelloedd en-suite o reidrwydd).
- Drych gyda golau da uwch ben neu'n agos i fasn ymolchi.
- Digon o le storio, gyda lle i bethau ymolchi gwesteion.
- Sebon a dysgl sebon (gall fod yn sebon a bwmpir o gynhwysydd).
- Bachyn ar gyfer dillad.
- Wyneb gwrth-lithro neu fat ar gyfer ei ddefnyddio mewn baddonau neu gawodydd ar gael ar gais.
- Rheilen dyweli neu debyg sy'n ddigon mawr ar gyfer nifer y gwesteion yn yr ystafell.
- Pwynt eillio trydanol wedi ei leoli'n gyfleus, a'r foltedd wedi ei ddangos ar yr addasydd.
- Papur toiled a daliwr papur toiled a phapur toiled dros ben.
- Bin â chaead i waredu eitemau ystafell ymolchi a bagiau tyweli misglwyf.
- Llenni, bleindiau neu gaeadau wedi eu gosod ar ffenestri er mwyn sicrhau preifatrwydd.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pum Seren

- Gofynion sylfaenol.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparwch ddeddoliad o gyfarpar megis seddi baddon, codwyr uchder seddi toiled a chadeiriau cawodydd. Darparwch reilen gymorth ger ffitiadau'r gawod.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Mae gwastraffu dŵr, yn arbennig dŵr sydd wedi ei gynhesu yn daflu arian i lawr y draen yn llythrennol.
- Gellid defnyddio gosodiadau arbed dŵr megis tapiau arbed dŵr a thoiledau fflysio deuol. Hefyd gellir lleihau fflysio toiledau drwy ddadleoli dŵr, yn syml drwy osod potel o faint priodol wedi ei selio sy'n llawn tywod neu ddŵr yn y seston, er enghraifft. Sicrhewch bod beth bynnag a ddefnyddir i ddadleoli dŵr yn eistedd yn ddiogel ar waelod y seston ac nad yw'n ymyrryd â'r mecanwaith fflysio.
- Argymhellir defnyddio arwydd ('Ei fagio a'i finio!') er mwyn annog gwesteion i ddefnyddio'r biniau a ddarperir ac i beidio â chael gwared ag eitemau anaddas i lawr y toiled, yn arbennig os yw'r eiddo yn defnyddio tanc septig.
- Nid oes angen i sebonau a chynhyrchion am ddim eraill gael eu lapio'n unigol neu fod mewn cynwysyddion bach – gellir cyflwyno'r rhain mewn cynwysyddion deniadol addas y gellir eu hailddefnyddio. Mae aseswyr yn gwirio ansawdd y cynhyrchion a gynigir a steil y cyflwyniad.
- Nid oes raid i'r cwpan/gwydr yfed fod yn blastig neu fod wedi ei lapio.
- Er y gall darparu cyfleusterau cawod helpu i leihau'r defnydd o ddŵr, cofiwch y gall cawodydd pŵer ddefnyddio mwy o ddŵr na baddon. Felly, ystyriwch ddefnyddio pennau cawod lleihau llif neu gawodydd disgyrchiant pan fo'n bosibl. Gall y rhain leihau defnydd heb effeithio ar brofiad y cwsmer, cyn belled â bod pwysedd y dŵr yn ddigonol. Byddwch hefyd yn arbed ynni oherwydd y bydd llai o ddŵr cynnes yn cael ei ddefnyddio.

2.7.4 Goleuo, Gwresogi ac Awyru

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Digon o oleuadau wedi eu gorchuddio.
- Digon o wres. Noder, mae angen gwresogi penodol ar gyfer pob ystafell ymolchi sydd â ffenestr allanol.
- Mae rheilen dyweli wedi ei gwresogi yn dderbyniol.
- Digon o awyru ac echdynnu (ffenestr neu ffan echdynnu).

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Ffordd o ddarparu tyweli sych ychwanegol i'r gwesteion ar gais.

Pedair Seren

- Rheilen dyweli wedi ei gwresogi neu gyffelyb.

Pum Seren

- Fel pedair seren.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Mae defnyddio rheolyddion thermostatig ar reiddiaduron neu reiliau tyweli wedi eu gwresogi yn helpu i reoli eich defnydd o ynni. Gellir gosod amserydd ar gyfer cynhesu rheiliau tyweli trydanol am un neu ddwy awr, er mwyn sicrhau nad ydynt ymlaen yn ddiangen.
- Dylid defnyddio mwy ar fylbiau golau arbed ynni, megis bylbiau fflwroleuol cryno (CFL) ac LED.
- Mae yna alw mawr am wres a dŵr poeth mewn nifer o westai. Gellir gwneud arbedion ariannol ac arbedion carbon sylweddol drwy ddefnyddio tanwydd gwresogi mwy effeithlon – er enghraifft, newid o olew neu LPG i fomas neu osod system thermol solar er mwyn cynhesu dŵr poeth a gwrthbwyso'r defnydd o danwydd. Mae yna gyngor arbenigol ar gael ar yr opsiynau mwyaf addas ar gyfer eich safle, ac unrhyw gymorth ariannol a gynigir megis benthyciadau di-log neu log isel a chymhelliannau eraill.

2.7.5 Tyweli a Phethau Ymolchi

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Tywel dwylo a baddon glân ac amsugol wedi ei ddarparu i bob gwestai newydd.

- Mat baddon. Noder, nid yw matiau papur yn dderbyniol.
- Sebon ffres yn cael ei ddarparu i bob gwestai newydd.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Siampŵ a gel baddon yn cael ei ddarparu.

Pedair Seren

- Amrywiaeth dda iawn o dyweli a phethau ymolchi.

Pum Seren

- Amrywiaeth o dyweli sy'n cynnwys cynfasau baddon, gynau a gwlanenni ymolchi.
- Amrywiaeth ehangach o bethau ymolchi moethus ac ategolion ystafell ymolchi ar gyfer y gwesteion.

Arferion Gorau

- Pethau ymolchi mewn argyfwng megis brwsch dannedd a rasal y gellir ei waredu ar gael, am dâl o bosibl.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparwch dyweli sydd â lliw sy'n cyferbynnu â'r waliau a'r llawr er mwyn cynorthwyo gwesteion sydd â nam ar y golwg.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Gellid defnyddio arwydd cytundeb defnyddio tyweli er mwyn annog gwesteion i aildefnyddio eu tyweli. Mae'n well gosod hwnnw ger y tyweli yn yr ystafell ymolchi.
- Dylid hyfforddi staff yn briodol er mwyn cydymffurfio â'r polisi tyweli er mwyn osgoi newid tyweli pan fo gwesteion wedi cytuno i'w haildefnyddio.
- Mae'n dderbyniol gosod un set o dyweli yn unig mewn ystafell a feddiannir gan un person, a bod mwy o dyweli ar gael ar gais.
- Dewis amgen i ddefnyddio sebonau wedi eu lapio'n unigol a chynhyrchion eraill am ddim yw cyflwyno'r rhain mewn cynhwysyddion deniadol addas y gellir eu haildefnyddio. Mae aseswyr yn gwirio ansawdd y cynhyrchion a gynigir a steil y cyflwyniad.

2.8 Ardaloedd Cyhoeddus

2.8.1 Ardaloedd Derbyn a Chyntedd

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Cyfleuster derbyn dynodedig amlwg sydd o leiaf yn gyntedd cyffredin sydd ag wyneb gwastad priodol. Mae ardal ddynodedig amlwg ar un pen i gownter bar yn dderbyniol.
- Cloch neu ffôn mewnol wedi ei ddarparu ar gyfer galw am sylw pan nad yw'r staff yn bresennol.
- Gofod a chyffordduswydd derbyniol i westeion, sy'n gymharol â nifer yr ystafelloedd.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Ardal dderbyn benodol gyda desg, cownter neu fwrdd, oni bai fod yna weithdrefnau amgen a reolir yn dda wedi eu sefydlu er mwyn cofrestru gwesteion yn y lolfa neu'r ystafell wely.

Pedair Seren

- Mwy o le a chyffordduswydd (yn cynnwys seddi) ar gyfer gwesteion sy'n cyrraedd a gadael.

Pum Seren

- Ardal dderbyn ddynodedig amlwg neu broses gofrestru/gadael bwrpasol.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparwch ardal daclus wedi ei goleuo'n dda sy'n caniatáu mynediad rhwydd i'r cyfleuster derbyn, a seddi ar gyfer gwesteion.
- Bydd dolen glywed neu fwrdd clipio a beiro yn helpu cyfathrebu gyda gwesteion â nam ar y clyw.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Gellid hyrwyddo polisi amgylcheddol y gwesty, os oes gennych un, neu fanylion am unrhyw gynllun gwyrdd y mae'r gwesty yn gysylltiedig ag ef, yn y cyntedd neu ardal y dderbynfa.
- Hefyd gellir hyrwyddo'r polisi, aelodaeth o gynllun gwyrdd (os yn gymwys) ac unrhyw wybodaeth am weithgareddau cynaliadwyedd y gall y gwesty fod yn eu cynnal, ar y wefan. Gall cyfathrebu â

gwesteion mewn ffordd glir a chadarnhaol yn y man priodol fod yn allweddol o ran ymgysylltu â nhw â'u hannog i gydymffurfio â'r gweithgaredd cynaliadwyedd. Gall hysbysu cwsmeriaid arfaethedig am weithgareddau cynaliadwyedd pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynghylch archebu creu argraff gadarnhaol.

2.8.2 Bariau, Lolfeydd ac Ardaloedd Eistedd

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Bar neu lolfa gyda digon o seddi cyfforddus ar gyfer gwesteion sy'n hygyrch drwy gydol y dydd a gyda'r nos.
- Darparu mwy o seddi pan fo angen yn y farchnad e.e. mewn gwestai cyrchfan gwyliau, gwestai hamdden a busnes a ble mae rhai nad ydynt yn breswylwyr yn bwyta neu'n ymweld â'r bar.
- Y bar a'r lolfa wedi eu cyfuno o bosibl gan ddarparu'r unig ardal eistedd yn ardaloedd cyhoeddus y gwesty.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gosodiad seddi addas ac amrywiaeth o ddodrefn sy'n briodol ar gyfer bodloni anghenion y farchnad yn achos rhai gwestai e.e. gwestai ble mae cyfarfodydd busnes yn cael eu cynnal neu ble cynigir lluniaeth yn y lolfa.

Pedair Seren

- Fel tair seren.

Pum Seren

- Disgwylir amrywiaeth o ran steil seddi.
- Nid yw'r holl ardaloedd eistedd yn lolfeydd o reidrwydd, ond cynigir amrywiaeth o amgylcheddau yn sicr.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparwch amrywiaeth o seddi: isel, uchel, cadarn, meddal, gyda a heb freichiau.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Décor – gellid defnyddio gwaith artistiaid lleol, printiau a/neu ffotograffau a ddelweddu sy'n darlunio golygfeydd lleol a delweddu sy'n gysylltiedig â hanes a threftadaeth – mae'r cyfan yn ychwanegu at roi gwell naws am le i'r ymwelwyr.

- Pan fo biniau gwastraff ar gael i'r gwesteion, gall fod yna finiau ar wahân wedi eu marcio'n glir ar gyfer gwastraff y gellir ei ailgylchu (e.e. papur, caniau, a phlastig).

2.8.3 Ardaloedd Cyhoeddus Eraill yn Cynnwys Coridorau a Grisïau

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Coridorau a grisïau mewn cyflwr da ac yn ddirwystr.
- Wedi eu goleuo'n ddigonol, 24 awr y dydd.
- Sylw penodol wedi ei roi i gyflwr handlenni drysau, rhifau, eitemau pres a phaneli gwydr.
- Arwyddion cyfarwyddo clir i'r ystafelloedd gwely a'r dderbynfa (pan fo angen hynny).

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Coridorau fel arfer yn llydan ac eang.

Pum Seren

- Coridorau a grisïau yn llydan ac eang sy'n caniatáu i westeion symud yn rhwydd a digon o le i droliu gwasanaethu.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Ar bob gris neu newid lefel, darparwch sribed ar yr ymylon sy'n cyferbynnu â lliw y llawr.
- Darparwch o leiaf un canllaw di-dor ar risïau a ble ceir newid lefel.
- Darparwch arwyddion clir. Gweler y canllawiau dylunio arwyddion: www.signdesignsociety.co.uk.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Gall defnyddio goleuadau ynni effeithlon a gwella rheolyddion mewn ardaloedd cyhoeddus, yn ogystal ag yng nghefn y tŷ, greu arbedion cost sylweddol.
- Dylai goleuadau mewn coridorau a phyllau grisïau, sydd ymlaen am gyfnodau hir, fod yn rhai ynni isel e.e. rhai fflwroleuol cryno (CFL) ac LED. Hefyd gall newid tiwbïau fflwroleuol hŷn am rai newydd teneuach a mwy effeithlon greu arbedion ynni.
- Gellid gosod rheolyddion megis synwryddion meddiannaeth neu olau dydd

mewn ardaloedd priodol er mwyn osgoi i oleuadau fod ymlaen yn ddiangen.

2.8.4 Liffïau

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren) Dewisol

- Mae cymorth gyda bagiau yn ofynnol pan nad oes lifft ar gael.

Dwy Seren

- Pan nad oes lifft ar gael, dylid egluro hynny ar adeg archebu.

Tair Seren

- Mae lifft yn ofynnol pan fo yna ystafell wely i westeion sydd yn fwy na dau lawr yn uwch neu'n is na'r llawr isaf, e.e. ar y trydydd llawr.

Pedair Seren

- Fel tair seren.

Pum Seren

- Disgwylir y bydd lifft ar gael i bob llawr yn y prif adeilad a bod cymorth gyda bagiau yn cael ei gynnig.

Arferion Gorau

- Mae eithriadau yn bosibl yn achos adeiladau hŷn a/neu adeiladau sy'n bensaernïol rhestredig, ble y gellir dangos bod gosod lifft yn anymarferol neu'n annerbyniol i awdurdodau cynllunio.
- Lifft ar wahân ar gyfer gwasanaethau'r gwesty, megis bagiau, golchi dillad a gwasanaeth ystafell.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Sicrhewch bod lifftïau yn darparu negeseuon clywadwy a bod ganddynt lythrennau a rhifau wedi'u codi ar y panel rheoli. Mae drych ar y wal gefn yn cynorthwyo defnyddiwr cadair olwyn i symud i mewn ac allan.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Dylai safleoedd â lifft sicrhau bod y grisïau wedi eu harwyddo yn glir. Mae hynny yn rhoi'r opsiwn i westeion ddefnyddio'r grisïau pan fo'n briodol, sydd nid yn unig yn arbed ynni ond sydd hefyd yn hyrwyddo ffordd o fyw fwy actif.

2.8.5 Cyfathrebu

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Ffôn sy'n hygyrch 24 awr y dydd, oni bai y darperir ffonau deialu uniongyrchol ym mhob ystafell wely. Darperir cyfleusterau yn yr ystafell (ffonau talu, ffonau tŷ neu setiau llaw symudol).
- Wi-Fi am ddim mewn ardaloedd cyhoeddus ar gyfer gwirio e-bost a phori ysgafn ar y rhyngwrwyd. Mae codi am lawrlwytho cerddoriaeth, ffilmiau a defnydd trwm arall o'r rhyngwrwyd yn dderbyniol.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pum Seren

- Gofynion sylfaenol.

2.8.6 Toiledau Ardaloedd Cyhoeddus

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

Pan fônt yn agored i rai nad ydynt yn breswylwyr:

- Cyfleuster toiled wedi ei leoli yn gyfleus er mwyn gwasanaethu'r ardaloedd cyhoeddus.
- Pob toiled yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, yn cael eu glanhau a'u gwirio'n rheolaidd ac wedi eu hawyru'n ddigonol.
- Y cyfleusterau canlynol wedi eu darparu fel gofyniad sylfaenol: basn ymolchi a sebon, cyfleusterau sychu dwylo, golau wedi ei orchuddio, drych, bachyn ar y drws, bin â chaead i waredu eitemau ystafell ymolchi a bagiau tyweli misglwyf, daliwr papur toiled a phapur toiled.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Darpariaeth helaethach o doiledau.

Pum Seren

- Fel pedair seren.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- Darparwch reiliau cymorth priodol ger wrinalau, toiledau a basnau ymolchi.

Arferion Da o ran Cynaliadwyedd

- Gellid defnyddio gosodiadau arbed dŵr megis tapiâu arbed dŵr a thoiledau fflysio deuol. Er mwyn osgoi gwastraffu dŵr o ganlyniad i dapiau'n cael eu gadael yn agored, defnyddiwch dapiau synwryddion neu dapiau gwrthio mewn toiledau cyhoeddus. Mae cynnal a chadw rheolaidd yn angenrheidiol er mwyn osgoi diferu a sicrhau bod tapiâu yn gweithio'n iawn.
- Gall fflysio wrinalau yn ddiangen ddefnyddio swm sylweddol o ddŵr. Mae gosod rheolyddion fflysio, y gellir eu retro-ffitio, neu osod wrinalau di-ddŵr, yn datrys y broblem honno. Os yw'r defnydd o ddŵr yn cael ei fesur, gall hynny arwain at arbedion cost sylweddol.
- Argymhellir defnyddio arwydd 'Ei fagio a'i finiol' er mwyn annog gwesteion i ddefnyddio'r biniau a ddarperir, yn arbennig os yw'r eiddo yn defnyddio tanc septig. Yn gyffredinol argymhellir cael biniau glanweithiol mewn toiledau cyhoeddus. Pan fo'n briodol, dylid hefyd darparu bin i glytiau babanod.

2.9 Ardaloedd Allanol (Fel sy'n Gymwys)

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

Pob Gradd

Mae ardaloedd allanol yn cynnwys edrychiad yr adeilad, tiroedd a gerddi, llwybrau, rhodfeydd ac unrhyw lefydd parcio:

- Dylai pob ardal gael eu cynnal a'u cadw'n dda a bod yn addas i'r diben.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pum Seren

- Gofynion sylfaenol.

Arferion Da o ran Hygyrchedd

- O fewn tiroedd yr eiddo neu mewn man a ddynodir yn gyfagos, darparwch ardal i gŵn cymorth redeg yn rhydd neu dreulio amser ynddo.
- Sicrhewch nad oes rhwystrau, ysbwriel, mwsogl, rhew na dail ar y llwybrau, a bod eu wynebau yn gadarn ac mewn cyflwr da. Sicrhewch bod unrhyw nodweddion parhaol ar y llwybr wedi eu gosod yn sOWNd e.e. potiau blodau, cerfluniau.

3.0 Atodiadau

Gofynion Mynediad Sylfaenol (Un Seren)

- Pan fo gan westy atodiad, bydd y cyfleusterau a ddarperir yn cael eu hystyried wrth bennu gradd gyffredinol ar gyfer y gwesty.
- Gellir lleoli llety mewn atodiad mewn uned neu unedau ar wahân ar diroedd y gwesty neu o fewn pellter cerdded hawdd o'r prif adeilad. Mae'n rhaid i lwybrau i'r atodiad fod mewn cyflwr da, gyda wyneb da arnynt ac wedi eu goleuo'n ddigonol.

Dwy Seren

- Gofynion sylfaenol.

Tair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pedair Seren

- Gofynion sylfaenol.

Pum Seren

- Mynediad dan do i unrhyw lety sydd ar wahân i'r prif adeilad. Gallai hynny gynnwys cludiant gan yrrwr neu dywysydd ag ambarél.

4.0 Cod Ymddygiad

Mae'n ofynnol i'r perchennog/rheolwyr ddilyn a chydffurfio â'r Cod Ymddygiad canlynol:

- Cynnal safonau gofal gwesteion, glendid a gwasanaeth sy'n briodol i'r math o sefydliad.
- Disgrifio'n gywir mewn unrhyw hysbyseb, llawlyfr neu unrhyw gyfrwng printiedig neu electronig arall, y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir.
- Egluro i'r ymwelwyr beth yn union sy'n gynnwysedig ym mhrys y llety, yn cynnwys trethi ac unrhyw ordaliadau eraill. Dylid hefyd egluro manylion am gostau unrhyw wasanaethau/cyfleusterau ychwanegol.
- Rhoi datganiad polisi canslo clir i'r gwesteion ar adeg archebu h.y. dros y ffôn, ffacs, e-bost,

yn ogystal â rhoi gwybodaeth mewn fformat printiedig.

- Cadw at y prisiau a ddyfynnwyd ar adeg archebu'r llety a gwasanaethau eraill, a pheidio â chodi mwy na hynny.
- Hysbysu ymwelwyr ar adeg archebu ar ac ôl hynny am unrhyw newid, os bydd y llety yn cael ei gynnig mewn atodiad ar wahân neu gyffelyb, a dangos lleoliad y cyfryw lety ac unrhyw wahaniaeth mewn cyfforddusrwydd a/neu amwynderau â'r hyn a geir yn y prif adeilad.
- Rhoi manylion am y taliad sy'n ddyledus a derbynneb, os oes angen, i bob ymwelydd ar gais.
- Delio'n brydlon a chwrtais â phob ymholiad, cais, archeb a chyfathrebiadau gan ymwelwyr.
- Sicrhau bod gweithdrefn delio â chwynion wedi ei sefydlu ac yr ymchwilir i gwynion a dderbynnir yn brydlon a chwrtais a bod yr hyn sy'n deillio o hynny yn cael ei gyfathrebu i'r ymwelydd.
- Rhoi sylw dyledus i ofynion ymwelwyr ag anabledau ac ymwelwyr ag anghenion arbennig, a chynnig darpariaeth addas pan fo'n gymwys.
- Darparu yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus neu drefniant cyffelyb a chydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cynllunio, diogelwch ac arall sydd mewn grym yn statudol.
- Caniatáu mynediad rhesymol i gynrychiolydd Croeso Cymru i'r sefydliad, ar gais, er mwyn cadarnhau y cydymffurfir yn llawn â'r Cod Ymddygiad.

5.0 Amodau Cyfranogiad

Mae'n ofynnol i bob sefydliad sy'n cyfranogi yng nghynlluniau graddio Croeso Cymru i:

- Fodloni neu ragori ar ofynion lefel mynediad sylfaenol Croeso Cymru o ran Cyfleusterau, Gwasanaethau ac ansawdd.
- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad Croeso Cymru.
- Cael eu hasesu, ac yn achos cwynion, gan gynrychiolydd Croeso Cymru awdurdodedig.
- Talu ffi cyfranogi blynyddol.
- Darparu datganiad mynediad/canllawiau hygyrchedd.

6.0 Newid Perchnogaeth

Pan fo sefydliad yn cael ei werthu, ni ellir trosglwyddo'r radd sy'n bodoli i'r perchennog newydd. Mae'n ofynnol i'r perchennog newydd wneud cais i gyfranogi yng nghynllun graddio sêr Croeso Cymru.

7.0 Arwyddion

Pan fo sefydliad, am ba bynnag reswm, yn peidio â chyfranogi yng nghynllun graddio Croeso Cymru, mae'n rhaid tynnu'r holl arwyddion a'r deunydd print i lawr yn syth.

Dylai'r defnydd o radd sêr gael ei ategu bob amser â logo priodol Croeso Cymru a dynodwr swyddogol Croeso Cymru.

Gall methu â chydymffurfio â'r amodau hyn olygu y gall sefydliad fod yn anghymwys i arddangos ardystiad Croeso Cymru mewn unrhyw ffordd.

8.0 Beth i'w Wneud os Ydych yn Anghytuno â'r Radd Sêr a Roddwyd

Os ydych yn teimlo bod gennych reswm i anghytuno â'r radd sêr a roddwyd i'ch eiddo, neu eich bod yn anghytuno â rhai agweddau o adroddiad yr Aseswr Ansawdd, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl ar ôl i chi dderbyn eich adroddiad ysgrifenedig.

Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar 0845 0108020 neu ein e-bostio at quality.tourism@llyw.cymru a byddwn yn ymdrechu i ddatrys eich pryderon.

Neu, gallwch ysgrifennu atom yn:
Yr Adran Sicrwydd Ansawdd, Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UR.

Ноҳиҳои



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yr Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3UR

Ymholiadau Ffôn: 0845 010 8020
Ffacs: 0300 062 2081
E-bost: quality.tourism@llyw.cymru